



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Ymyraethau sydd wir yn gweithio: adnoddau gan y trydydd sector a'r sector preifat i ysgolion sy'n mynd i'r afael ag amddifadedd

Canllawiau i ymarferwyr



Mae'r canllawiau hyn yn ategu *Grant Amddifadedd Disgyblion* – Canllawiau hanfodol a gyhoeddwyd ym Mawrth 2015

Ymyraethau sydd wir yn gweithio: adnoddau gan y trydydd sector a'r sector preifat i ysgolion sy'n mynd i'r afael ag amddifadedd

Cynulleidfa

Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cynnig trosolwg o rai ymyraethau y byddai ysgolion o bosibl yn dymuno'u hystyried er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n gallu effeithio ar gyrhaeddiad addysgol dysgwyr o gefndiroedd di-fraint. Mae wedi'i anelu'n benodol at eu helpu i wario'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol. Dogfen weithio yw hon ac fe gaiff ei diweddarau'n rheolaidd.

Camau i'w cymryd

I'w defnyddio wrth gynllunio ymyraethau i wella cyrhaeddiad dysgwyr sy'n byw mewn tldi.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cangen Amddifadedd ac Ymgysylltu

Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3630

e-bost: deprivationandengagement@cymru.gsi.gov.uk

Copiau ychwanegol

Gallwch gael gafael ar y ddogfen hon ar wefan Dysgu Cymru yn

www.dysgu.cymru.gov.uk/amddifadedd

Dogfennau cysylltiedig

Ailysgrifennu'r dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru (2014)

www.gov.wales/docs/dcells/publications/140616-rewriting-the-future-raising-ambition-and-attainment-in-welsh-schools-cy.pdf

Grant Amddifadedd Disgyblion – Canllawiau hanfodol (2015)

www.gov.wales/docs/dcells/publications/150323-pdg-essential-guidance-cy.pdf

Canllawiau ar gyfer defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Beth sydd wir yn gweithio? (2014)

www.learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/140512-what-really-works-cy.pdf

Defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol:

Canllawiau i ymarferwyr (2015)

www.learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/150224-pdg-arts-cy.pdf

Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar: Canllawiau i gonsortia rhanbarthol,

awdurdodau lleol, ysgolion, meithrinfeydd, grwpiau chwarae a gwarchodwyr plant

www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolhome/deprivation/pdg-and-early-years-pdg/?skip=1&lang=cy

Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer y blynyddoedd cynnar? Canllawiau ar gyfer Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar

www.learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/pdg-what-really-works/?skip=1&lang=cy

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Yr rôl y gall y trydydd sector a'r sector preifat ei chwarae wrth fynd i'r afael â dylanwad amddifadedd	3
Grant Amddifadedd Disgyblion	4
Cyrsiau hyfforddi sy'n cael eu cynnig gan y trydydd sector a'r sector preifat	6
Gweithgarwch wedi'i deilwra gan y trydydd sector yng Nghymru	7
Sut i ddefnyddio'r catalog hwn	11
Diweddariadau i'r catalog hwn yn y dyfodol	13
Catalog	14
Dulliau ysgol gyfan	17
Ymgysylltu â theuluoedd ac â'r gymuned	20
Dal i fyny a thiwтора	34
Cyfoethogi a dyheadau	39
Lles	47

Cyflwyniad

Bwriedir y catalog hwn ar gyfer ysgolion sy'n ystyried prynu arbenigedd gan y trydydd sector neu'r sector preifat i'w helpu i fynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd ar ddeilliannau addysgol. Rydym wedi cynnwys amrywiaeth o ymyraethau sy'n cael eu cynnig i ysgolion yng Nghymru sydd wedi dangos tystiolaeth eu bod yn cael dylanwad cadarnhaol. Mae nifer o adnoddau wedi'u rhestru hefyd sydd heb gael eu gwerthuso eto ond sydd, i bob golwg, yn dangos y gallent gael dylanwad cadarnhaol. Efallai y byddai rhai ysgolion yn hoffi ystyried yr ymyraethau a'r rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yma ond ni ddylent dybio bod y ffaith eu bod wedi'u cynnwys yma'n arwydd eu bod yn effeithiol, yn enwedig y rheini sydd heb eu gwerthuso'n llawn. Rydym yn argymhell yn gryf y dylid gwerthuso unrhyw ymyrraeth sy'n cael ei defnyddio mewn ysgolion i fesur pa mor effeithiol yw hi o ran mynd i'r afael â'r materion y'i dewiswyd ar eu cyfer.

Y rôl y gall y trydydd sector a'r sector preifat ei chwarae wrth fynd i'r afael â dylanwad amddifadedd

Mae'r dystiolaeth yn dangos yn gyson bod tlodi ac amddifadedd yn cael dylanwad diymwad ar ddeilliannau addysgol plant, gan gyfyngu ac amharu arnynt. Mynd i'r afael â hyn yw un o flaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd rhaglen weithredu yn 2014, *Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru*¹, gan ddisgrifio'r rôl y gall ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru ei chwarae.

Gall y gwasanaethau y mae'r trydydd sector a'r sector preifat yn eu cynnig gyfrannu'n adeiladol at y gwaith y bydd ysgolion yn ei wneud ond dylent ategu, yn hytrach na disodli, ymagwedd ysgol gyfan/gwaith yn yr ysgol ei hun.

Mae'r gwasanaethau hyn ar gael ar sawl gwahanol wedd:

- hyfforddiant
- hyfforddiant cychwynnol a chymorth ar gyfer ymyraethau y gall yr ysgol eu cynnal wedyn
- rhoi rhai rhaglenni ar waith yn llawn.

Bydd y catalog hwn yn help i chi benderfynu a yw prynu gwasanaethau fel hyn yn iawn i'ch ysgol chi. Mae'n rhan o gyfres o ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyhoeddi yn gefn i weithredu *Ailysgrifennu'r dyfodol*, sydd ar gael ar www.dysgu.cymru.gov.uk/amddifadedd.

¹ www.gov.wales/docs/dcells/publications/140616-rewriting-the-future-raising-ambition-and-attainment-in-welsh-schools-cy.pdf

Grant Amddifadedd Disgyblion

Mewn llawer achos, bydd ysgolion yn talu am wasanaethau'r trydydd sector a'r sector preifat drwy ddefnyddio'u Grant Amddifadedd Disgyblion. Un o amcanion y catalog hwn yw eu helpu i wario'r Grant Amddifadedd Disgyblion mewn ffordd effeithiol.

Dim ond os bydd yr arian y cael ei ddefnyddio'n effeithiol y mae ariannu'n gallu mynd i'r afael â phroblemau. Yn ei gyflwyniad i'r weminar Amddifadedd a Chyrhaeddiad yng ngwanwyn 2013², esboniodd Robbie Coleman o'r Education Endowment Foundation yn glir fod sgoriau PISA, er enghraifft, yn dangos mai gwan iawn yw'r berthynas rhwng lefel y gwario ar addysg a deilliannau addysgol. Mae **sut** y caiff arian ei wario'n bwysicach na **faint** sy'n cael ei wario. Felly, dylid canolbwyntio ar ddeilliannau wrth gynllunio sut i wario arian.

Dilynwch y dolenni canlynol i ddarllen y canllawiau am sut i wario'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol ac i gael cymorth wrth fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol.

<i>Grant Amddifadedd Disgyblion – Canllawiau hanfodol</i>	www.gov.wales/docs/dcells/publications/150323-pdg-essential-guidance-cy.pdf
<i>Canllawiau ar gyfer defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Beth sydd wir yn gweithio?</i>	www.learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/pdg-what-really-works/?skip=1&lang=cy
<i>Difreintedd Disgyblion – Mai 2014 (Estyn)</i>	www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/309418.2/Difreintedd%20disgyblion%20-%20Mai%202014/?navmap=30,163
<i>Pecyn Cymorth Addysg a Dysgu'r Ymddiriedolaeth Sutton – EEF (Education Endowment Foundation)</i>	www.learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/sutton-trust-education-endowment-foundation/?skip=1&lang=cy
<i>Canolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg (adnoddau amrywiol)</i>	www.uwtsd.ac.uk/cy/ccca/cyhoeddiadau-ac-adnoddau
<i>Defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol: Canllawiau i ymarferwyr</i>	www.learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/pdg-in-support-of-arts/?skip=1&lang=cy
<i>Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer y blynyddoedd cynnar? Canllawiau ar gyfer Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar</i>	www.learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/pdg-what-really-works/?skip=1&lang=cy

² Cyflwyniad Ymddiriedolaeth Sutton am y pecyn cymorth www.learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/deprivation-and-attainment-what-can-really-make-a-difference/?skip=1&lang=cy

<p><i>Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar: Canllawiau i gonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion, meithrinfeydd, grwpiau chwarae a gwarchodwyr plant</i></p>	<p>www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/pdg-and-early-years-pdg/?skip=1&lang=cy</p>
<p>Dogfen Llywodraeth Cymru ynglŷn â chanllawiau i ysgolion ar ddenu teuluoedd a chymunedau i ymgysylltu â dysgu</p>	<p>Ar gael yn 2015.</p>
<p>Dogfen Llywodraeth Cymru ynglŷn â chanllawiau i ysgolion ar ysgolion haf ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd di-fraint</p>	<p>Ar gael yn 2015.</p>

Cyrsiau hyfforddi sy'n cael eu cynnig gan y trydydd sector a'r sector preifat

Ansawdd addysgu yw'r ffactor allweddol mewn perthynas â chefnogi canlyniadau dysgwyr. Mae astudiaethau o effeithiolrwydd athrawon yn awgrymu y bydd dysgwyr sy'n cael eu rhoi gydag athrawon sy'n perfformio'n dda yn datblygu deirgwaith yn gyflymach na'r rhai gydag athrawon sy'n perfformio'n wael.³

Mae'r catalog hwn yn canolbwyntio ar brosiectau a rhaglenni sy'n cael eu darparu gan sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat ac sydd ar gael i ysgolion eu prynu. Er nad ydynt wedi'u rhestru yn y catalog hwn, bydd y trydydd sector a'r sector preifat hefyd yn cynnig cyrsiau hyfforddi i ysgolion a lle bydd y rhain yn berthnasol ac o safon dda, gallant gyfrannu at ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae hyn yn cael ei ystyried yn ffordd dda o ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion.

Rhai o'r cyrsiau hyfforddi y byddai ysgolion o bosibl am eu hystyried yn arbennig o berthnasol i'r agenda trechu amddifadedd yw'r rheini sy'n ymdrin â'r themâu canlynol:

- deall effeithiau amddifadedd ar ddeilliannau addysgol⁴
- strategaethau addysgu allweddol i fynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd, er enghraifft asesu ar gyfer dysgu, meta-wybyddiaeth, adborth o safon a thiwтора gan gyfoedion; gellid trefnu datblygiad proffesiynol i'r ysgol gyfan ar sail archwilio Pecyn Cymorth Addysgu a Dysgu'r Ymddiriedolaeth Sutton – EEF⁵, sy'n hyrwyddo defnyddio'r strategaethau hyn, a sut mae eu trosi'n ymarfer bob dydd mewn ysgolion
- gallu i arwain
- pwysigrwydd ymgysylltu da â'r gymuned ac â theuluoedd er mwyn codi dyheadau a chyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd di-fraint, a strategaethau i hyrwyddo hyn.

Mae'n werth ystyried hefyd bod modd hwyluso a chryfhau cyfleoedd dysgu proffesiynol drwy ddarparu cymorth ysgol i ysgol – gan ddatblygu strategaethau effeithiol a rhannu'r arferion gorau ag ysgolion eraill drwy gyfrwng cymunedau dysgu proffesiynol (www.learning.wales.gov.uk/yourcareer/professional-learning-communities/?skip=1&lang=cy) a rhwydweithiau eraill.

³ *Ailysgrifennu'r dyfodol* www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/rewriting-the-future-schools/?skip=1&lang=cy

⁴ Mae un enghraifft o hyn ar wefan Estyn i ysgolion cynradd (www.estyn.gov.uk/cymraeg/arfer-orau/mynd-ir-afael-difreintedd-a-chodi-safonau/ysgolion-cynradd-deunyddiau-hms) ac i ysgolion uwchradd (www.estyn.gov.uk/cymraeg/arfer-orau/mynd-ir-afael-difreintedd-a-chodi-safonau/ysgolion-uwchradd-deunyddiau-hms).

⁵ www.educationendowmentfoundation.org.uk/toolkit

Gweithgarwch wedi'i deilwra gan y trydydd sector yng Nghymru

Yn ogystal â'r ymyraethau a'r rhaglenni sydd wedi'u rhestru yn y catalog hwn, mae amrywiaeth o brosiectau eraill yn cael eu darparu gan y trydydd sector mewn ysgolion ar hyd ac ar led y wlad. Mewn llawer achos, cyrff bach iawn sy'n ymwneud â'r gwaith hwn, ac mae eu hadnoddau'n brin. Mae gofyn iddynt gael buddsoddiad gan gorff arall er mwyn gweithio gydag ysgolion. Gall y Grant Amddifadedd Disgyblion fod yn fodd o ariannu'r gweithgareddau hyn ac fe all sbarduno rhagor o gydweithio rhwng sefydliadau ac ysgolion er budd y myfyrwyr mwyaf di-fraint. Lle bydd prosiectau'n newydd ac yn rhai sydd heb gael eu gwerthuso, bydd gofyn i'r ysgol sicrhau bod ganddi ei phrosesu gwerthuso'i hun ar waith.

Dyma rai sefydliadau sy'n gweithio yn y maes hwn yn y trydydd sector yng Nghymru y gallech fod yn dymuno cysylltu â nhw.

- **Gweithredu dros Blant** (www.actionforchildren.org.uk/gweithredu-dros-blant)
Mae Gweithredu dros Blant yn darparu gwasanaethau mewn cymunedau lleol drwy Gymru i sicrhau bod plant yn goresgyn rhwystrau yn eu bywydau, pa mor anodd bynnag y bydd y rheini, er mwyn iddynt gyrraedd eu potensial llawn. Maent yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau wedi'u teilwra, ac mae'n bosibl darparu'r rhain ar y cyd ag ysgolion neu'n annibynnol o fewn lleoliad yr ysgol ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys: cymorth bugeiliol i hybu lles, gwaith wedi'i dargedu gyda theuluoedd, a chymorth a chynllunio sydd wedi'i deilwra i reoli ymddygiad; cwnsela mewn ysgolion; therapi chwarae arbenigol i bob oed; gwasanaethau i ofalwyr ifanc; darparu ystod o raglenni sydd wedi'u profi'n glinigol i sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr a'u teuluoedd a gwasanaethau pontio.
Cyswllt: Jan.Pardoe@actionforchildren.org.uk
- **Barnardo's Cymru** (www.barnardos.org.uk)
Mae Barnardo's Cymru yn cynnig ystod o ymyraethau mewn ysgolion gan ddilyn dull cyfannol o sicrhau lles y dysgwyr er mwyn helpu dysgwyr sy'n wynebu anfanteision i gyrraedd eu potensial. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cymorth sy'n creu cysylltiad â theuluoedd a'r gymuned ac addysg a chwarae yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r sefydliad hefyd yn darparu gwasanaeth cryfhau ymwybyddiaeth, adnoddau a chymorth i ddiwallu anghenion dysgwyr sydd o bosibl yn anodd eu hadnabod ac sy'n agored i niwed oherwydd amgylchiadau penodol eu teuluoedd. Maent yn gallu darparu gwasanaethau arbenigol i blant sydd wedi'u maethu a'u mabwysiadu, plant troseddwy, gofalwyr ifanc, plant sy'n wynebu camfanteisio rhywiol, plant y mae camddefnyddio sylweddau'n effeithio arnynt, plant sy'n ymddwyn mewn ffordd rywiol broblematic ac eraill.
Cyswllt: Samantha.Clutton@barnardos.org.uk
- **Plant yng Nghymru** (www.plantynghymru.org.uk)
Mae Plant yng Nghymru yn darparu ystod o gyrsiau hyfforddi amlddisgyblaeth sy'n anelu at hybu ymagwedd integredig ymhlith pawb sy'n gweithio yn y sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Anelir cyrsiau hyfforddi at bobl sy'n gweithio yng Nghymru, ac maent yn adlewyrchu cyd-destun Cymru a'r llwybrau gwahanol y mae Cymru a Lloegr yn eu dilyn fwyfwy o ran polisi plant a theuluoedd. Enghreifftiau o'r cyrsiau hyfforddi presennol yw Gweithio gyda Thadau; Cyflwyniad i Ganlyniadau Meddal a'r Pellter a

Deithiwyd; a Deall Sut Mae Diogelu Lles Plant a Phobl Ifanc. Mae ysgolion yn gallu prynu cyrsiau hyfforddi, a chomisiynu hyfforddiant arbennig ar eu cyfer, ac mae'n bosibl teilwra cyrsiau ar gyfer gofynion penodol.

Cyswllt: Claire.Sharp@childreninwales.org.uk

- **Cymunedau a 'Sgolion fel Tîm (CaST Cymru)** (<http://castcymru.org.uk>)

Mae CaST Cymru yn cynnig rhaglenni, prosiectau a gwasanaethau wedi'u cynllunio ymlaen llaw a rhai sydd wedi'u teilwra'n arbennig i hwyluso ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned (gan gynnwys Smooth Moves ar gyfer cyfnodau pontio yn yr ysgol), clybiau dysgu y tu allan i oriau ysgol (gan gynnwys gwyddoniaeth, coginio a chanu), Clybiau Pyramid i feithrin hyder a hunan-gred plant a phobl ifanc, CânSing a CânSing + llythrennedd.

Cyswllt: pam.boyd@castcymru.org.uk

- **CWVYS (Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Cymru)** (www.cwvys.org.uk/cy)

CWVYS yw'r corff cynrychiadol annibynnol ar gyfer y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru – sector sy'n ymgysylltu ag oddeutu 200,000 o bobl ifanc, 30,000 o wirfoddolwyr a 4,000 o staff cyflog. Mae'n canfod ac yn hwyluso partneriaethau gydag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys ysgolion ar ran y mudiadau sy'n aelod ohono ac ar eu rhan.

Cyswllt: paul@cwvys.org.uk

- **Prifysgol Edge Hill** (<https://everychildcounts.edgehill.ac.uk/feed>)

Mae timau mathemateg a darllen Every Child Counts ym Mhrifysgol Edge Hill yn darparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus i ysgolion a hynny heb fryd ar wneud elw er mwyn rhoi amrywiaeth o ymyraethau ar waith ym maes mathemateg a llythrennedd i helpu dysgwyr sydd wedi llithro ar ei hôl hi i ddal i fyny â'u cyfoedion. Mae'r gwasanaethau i gyd ar gael i ysgolion yng Nghymru ac maent yn cael eu defnyddio mewn nifer o ardaloedd ar hyn o bryd.

Cyswllt: ecc@edgehill.ac.uk

- **Dysgu drwy Dirweddau Cymru** (www.ltl.org.uk/cymru)

Mae Dysgu drwy Dirweddau Cymru wedi ymrwymo i gryfhau dysgu a chwarae yn yr awyr agored i blant yng Nghymru. Maent yn gweithio ochr yn ochr ag ysgolion a meithrinfeydd i'w helpu i roi prosiectau datblygu ymarferol ar waith i drawsnewid eu llecynnau awyr agored a phrofiadau eu plant yn yr ysgol; maent yn galluogi ysgolion a lleoliadau drwy Gymru i ddatblygu a defnyddio'u tir yn greadigol drwy raglenni hyfforddi, ymweliadau cynghori, adnoddau ar brint, ar ffilm ac ar-lein i'w hysbrydoli, gwasanaethau cymorth i aelodau a chymorth wedi'i deilwra i awdurdodau lleol a phartneriaid eraill; gan bwysleisio pa mor bwysig i blant yw bod ganddynt lecynnau awyr agored o safon a'u bod yn cael profiadau da yn eu hysgolion a'u meithrinfeydd.

Cyswllt: enquiries@ltl.org.uk

- **Mind Cymru** (www.mind.org.uk)

Mae Mind Cymru yn cynnal prosiectau ledled Cymru i gefnogi lles meddyliol ac mae'n bosibl y bydd yn gallu cynnal prosiectau wedi'u teilwra'n arbennig mewn ysgolion neu gystyrau i helpu dysgwyr i gadw'n feddyliol iach ac i feithrin gwytnwch emosiynol. Mae'n werth ystyried prosiectau fel hyn i ddysgwyr sy'n cael eu rhwystro rhag dysgu neu a allai fod yn wynebu rhwystr o'r fath oherwydd problemau iechyd meddwl. Mae Mind Cymru hefyd yn cynnal cyrsiau hyfforddi i staff ysgolion, gan gynnwys Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl sy'n addysgu pobl sut mae adnabod, deall a helpu rhywun a all fod yn datblygu problem iechyd meddwl; Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i Bobl Ifanc, sydd wedi'i fwriadu'n benodol i bobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc; a Sgiliau Ymyrryd Cymwysedig ym Maes Hunanladdiad (Applied Suicide Intervention Skills – ASIST), sy'n arbennig o ddefnyddiol i bobl sy'n gweithio gyda'r rhai sydd yn eu harddegau.

Cyswllt: training@mindaberystwyth.org

- **NIACE (Sefydliad Cenedlaethol Addysg Barhaus Oedolion)** (www.niacecymru.org.uk/cy)

Corff datblygu a melin drafod yw NIACE sy'n gweithio ar faterion sy'n ganolog i adfywiad economaidd y Deyrnas Unedig. NIACE Cymru sy'n arwain y gwaith yng Nghymru ar draws pob math o ddysgu, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, dysgu digidol, addysg bellach/uwch, prentisiaethau, dysgu yn y gweithle a dysgu i'r teulu a'r gymuned. Mae cynyddu a gwella dysgu i oedolion mewn teuluoedd a chymunedau'n rhan hanfodol o'u gwaith. Mae NIACE hefyd yn cynnal Canolfan y Teulu sy'n Dysgu – adnodd ar y we o waith ymchwil, polisi ac ymarfer.

Cyswllt: Kay.Smith@niace.org.uk neu Susannah.Chambers@niace.org.uk

- **Uned Pobl a Gwaith** (www.peopleandworkunit.org.uk)

Gall yr Uned Pobl a Gwaith ddarparu gwasanaeth ymgynghorol ar ffurf astudiaethau achos, gan fanteisio ar 25 mlynedd o brofiad yn gwneud ymchwil weithredu ym maes addysg, tlodi a chamu ymlaen. Mae'r sefydliad hefyd yn gallu cynnal rhywfaint o brosiectau, neu helpu eraill i fanteisio ar staff Cymunedau sy'n Canolbwyntio ar Ysgolion. Cyflogir y rhain drwy ffynhonnell ariannu wahanol i'r ysgol, gan sicrhau annibyniaeth, ond maent yn cydweithio â'r ysgol a'r gymuned.

Cyswllt: james.hall@peopleandworkunit.org.uk

- **Chwarae Cymru** (www.chwaraecymru.org.uk/cym)

Mae Chwarae Cymru yn darparu cyngor a chanllawiau i gefnogi darpariaeth chwarae; cyngor am wella cyfleusterau chwarae a sicrhau bod cymaint o leoedd chwarae â phosibl ar gael ac yn cael eu defnyddio; cyngor am hwyluso chwarae yn ystod amser egwyl; cyngor am agor tir ysgolion ar gyfer chwarae y tu allan i oriau addysgu; a chyngor am gymorth lleol a rhanbarthol i ysgolion.

Cyswllt: mail@playwales.org.uk

- **Achub y Plant** (www.savethechildren.org.uk)

Mae Achub y Plant yn cynnal prosiectau arloesol sy'n helpu i fynd i'r afael ag achosion tloedi a lliniaru eu heffeithiau. Yn benodol, mae'n cynnal rhaglenni ymyrryd yn gynnar sy'n dod â phlant, rhieni/gofalwyr, ysgolion a'r gymuned ehangach ynghyd, er mwyn sicrhau bod y plant mwyaf anghenus yn cael y cymorth academiaidd, emosiynol a sylfaenol sydd ei angen arnynt i gyflawni eu potensial yn yr ysgol ac mewn bywyd.

Cyswllt: walesprogramme@savethechildren.org.uk


- **WEA (Cymdeithas Addysg y Gweithwyr) Cymru** (www.weacymru.org.uk/cym)

Mae WEA (Cymdeithas Addysg y Gweithwyr) Cymru yn cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth wedi a heb ei hachredu y gellir ei theilwra i weddu anghenion penodol ysgolion, clystyrau o ysgolion, rhieni a gofalwyr ym maes dysgu i'r teulu, rhianta, iechyd a lles, cyflogadwyedd, rhaglenni rhyngweithio cymdeithasol, ac addysg a hyfforddiant.

Cyswllt: info@weacymru.org.uk

Sut i ddefnyddio'r catalog hwn

Bwriad y catalog hwn yw helpu ysgolion i ddewis ymyraethau priodol i helpu dysgwyr o gefndiroedd di-fraint (camau dau a thri yn y diagram isod). Mae Pecyn Addysgu a Dysgu'r Ymddiriedolaeth Sutton – EEF (<http://educationendowmentfoundation.org.uk/toolkit>) yn adnodd defnyddiol i ysgolion hefyd pan fyddant yn ystyried pa ymyraethau i'w dewis. Mae'r pecyn yn crynhoi'r dystiolaeth ymchwil am y 34 math o ymyraeth o ran eu gallu i wella cyrhaeddiad dysgwyr sy'n wynebu anfanteision.





Mae'r ymyraethau yn y catalog hwn wedi'u categorio yn ôl i ba raddau y mae gwerthuso annibynnol wedi dangos tystiolaeth o ddylanwad cadarnhaol a/neu fudd. Yr ymyraethau sydd â golau gwyrdd yw'r rheini lle mae tystiolaeth ar gael i bob golwg o ymchwil annibynnol i gefnogi canlyniadau cadarnhaol yr ymyrraeth. Lle mae'r ymyraethau wedi'u marcio â golau ambr, mae hyn yn dangos bod y dystiolaeth annibynnol am eu dylanwad yn brin neu nad oes tystiolaeth o gwbl, ond bod yr ymyrraeth serch hynny'n addawol. Dylai ysgolion bob tro geisio gwerthuso canlyniadau'r ymyrraethau y byddant yn eu defnyddio, yn enwedig y rhaglenni sydd wedi'u marcio'n 'ambr', ond dylent werthuso'r rhai sydd wedi'u marcio'n 'wyrdd' hefyd, oherwydd efallai y bydd ysgolion unigol yn gweld bod rhai camau'n fwy effeithiol yn eu hamgylchiadau hwy nag mewn amgylchiadau eraill.

Mae'r EEF wedi cyhoeddi canllawiau defnyddiol i athrawon ac ysgolion sy'n cyflwyno prif egwyddorion gwerthuso addysgol ac mae'n cynnig cyngor ymarferol am gynllunio a chynnal gwerthusiadau ar raddfa fach mewn ysgolion. Mae'r rhain i'w gweld ar wefan yr EEF yn <http://educationendowmentfoundation.org.uk/evaluation/diy-evaluation-guide>.

Diweddariadau i'r catalog hwn yn y dyfodol

Wrth benderfynu pa ymyraethau i'w cynnwys, ystyriwyd y canlynol.

1. **Addas** – Ai ymyrraeth barod yw hon y gallai ysgolion ei phrynu gyda'u Grant Amddifadedd Disgyblion?
2. **Nod** – A yw nod y prosiect yn adlewyrchu nodau *Ailysgrifennu'r dyfodol*?
3. **Tystiolaeth** – A oes tystiolaeth annibynnol i gefnogi'r ymyrraeth gan ddangos ei bod yn cael dylanwad cadarnhaol ar gyrhaeddiad (neu gyrhaeddiad tebygol yn y dyfodol) dysgwyr o gefndiroedd di-fraint?
4. **Gwerth am arian** – A yw'n dangos gwerth am arian (dylanwad am bob £ o'r Grant Amddifadedd Disgyblion a werir)?
5. **Cymhwysedd** – A yw'n gymwys ar gyfer gwariant o dan y Grant Amddifadedd Disgyblion (h.y. ar gyfer dysgwyr o dan 16 oed, o fudd i'r dysgwyr hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim/plant sy'n derbyn gofal, ac ati)?
6. **Argaeledd** – A yw ar gael i nifer sylweddol o ysgolion yng Nghymru?
7. **Cynaliadwyedd** – A oes unrhyw debygolrwydd y bydd y dylanwad yn para y tu hwnt i gyfnod gwario'r grant?

Rydym yn sylweddoli bod ymyraethau eraill wedi'u profi nad ydynt wedi'u cynnwys yn y catalog hwn a'r bwriad yw ychwanegu ato a'i ddiwygio'n barhaus. Byddem yn croesawu adborth gan ysgolion, sefydliadau yn y trydydd sector a'r sector preifat am y fersiwn gyntaf hon. Byddem hefyd yn falch o gael awgrymiadau am ymyraethau sy'n cyflawni'r meini prawf dethol i'w cynnwys yn yr ail fersiwn, yn ogystal â manylion sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gallu gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion.

Cysylltwch â:

Cangen Amddifadedd ac Ymgysylltu
Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CF10 3NQ

E-bost: DeprivationandEngagement@cymru.gsi.gov.uk

Catalog

Mae'r ymyraethau wedi'u grwpio yn ôl thema yn y catalog. Rhoddir rhestr lawn yn y tabl isod.

Thema	Ymyrraeth	Gosod targedau	Meysydd canolbwyntio	Cynaliadwy y tu hwnt i'r cyfnod ariannu?	Tystiolaeth dda o'r dylanwad?	Tudalen
Dulliau ysgol gyfan	Rhaglen 3A Llwyddiant i Bawb	Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig; unedau cyfeirio disgyblion.	Meithrin gallu ysgolion i fynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd; arweinyddiaeth.	Ydy, mae'n meithrin gallu.	Oes.	18
Ymgysylltu â theuluoedd ac â'r gymuned	Teuluoedd ac Ysgolion Gyda'i Gilydd/Families and Schools Together (FAST)	Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar; ysgolion cynradd.	Datblygu'r berthynas yn y teulu, sgiliau rhianta.	Yn rhannol; staff wedi'u hyfforddi ond costau parhaus.	Oes.	21
	Blynyddoedd Rhyfeddol	Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar; ysgolion cynradd.	Sgiliau rhianta, rheoli ymddygiad.	Ydy, staff wedi'u hyfforddi.	Oes.	23
	Dull Solihull 'Deall ymddygiad eich plentyn'	Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar; ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig; unedau cyfeirio disgyblion.	Rhianta, iechyd a lles emosiynol rhieni/gofalwyr, dysgwyr a staff.	Ydy, staff wedi'u hyfforddi.	Oes.	25
	Cryfhau Teuluoedd, Cryfhau Cymunedau	Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar; ysgolion cynradd ac uwchradd.	Sgiliau rhianta.	Yn rhannol; staff wedi'u hyfforddi ond costau parhaus.	Oes.	27

Thema	Ymyrraeth	Gosod targedau	Meysydd canolbwyntio	Cynaliadwy y tu hwnt i'r cyfnod ariannu?	Tystiolaeth dda o'r dylanwad?	Tudalen
Ymgysylltu â theuluoedd ac â'r gymuned (parhad)	Family Learning Signature	Ysgolion cynradd.	Denu'r teulu i ymgysylltu â'r dysgu.	Nac ydy, oherwydd bod gofyn cael trwydded barhaus.	Nac oes, ond mae'n addawol.	29
	Gwerthoedd Teuluol	Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar; ysgolion cynradd ac uwchradd.	Y teulu'n ymgysylltu â gweithgareddau seiliedig ar werthoedd.	Ydy, staff wedi'u hyfforddi.	Nac oes, ond mae'n addawol.	31
	Buddsoddwyr mewn Teuluoedd	Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig.	Achredu ymdrechion ysgol i ymgysylltu â theuluoedd.	Mae'n debyg, oherwydd mae'n debygol y bydd y gallu wedi'i ddatblygu.	Nac oes, ond mae'n addawol.	32
Dal i fyny a thiwтора	Rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd a argymhellir gan Lywodraeth Cymru	Ysgolion cynradd ac uwchradd.	Dal i fyny llythrennedd a rhifedd.	Efallai, a dibynnu ar y cwrs a ddewisir.	Oes.	35
	Adnoddau Cynradd Rhydychen	Ysgolion cynradd.	Dal i fyny llythrennedd a rhifedd.	Nac ydy, oherwydd bod gofyn cael adnoddau.	Nac oes, ond mae'n addawol.	36
	Tute	Ysgolion cynradd ac uwchradd.	Dal i fyny a chyfoethogi pob pwnc.	Nac ydy, cost fesul sesiwn.	Nac oes, ond mae'n addawol.	38

Thema	Ymyrraeth	Gosod targedau	Meysydd canolbwyntio	Cynaliadwy y tu hwnt i'r cyfnod ariannu?	Tystiolaeth dda o'r dylanwad?	Tudalen
Cyfoethogi a dyheadau	Rhaglen y Cyflawnwyr (Achiever Programme)	Ysgolion uwchradd; unedau cyfeirio disgyblion.	Rhaglen amrywiaeth, atal troseddu drwy ymyraethau cynnar.	Efallai, a dibynnu ar ariannu elusen.	Nac oes, ond mae'n addawol.	41
	Prifysgol y Plant	Ysgolion cynradd ac uwchradd.	Gweithgareddau cyfoethogi allgyrsiol.	Nac ydy, oherwydd bod angen ymaelodi.	Nac oes, ond mae'n addawol.	43
	Ysgolion Spice	Ysgolion cynradd ac uwchradd.	Gwirfoddoli ac ymgysylltu yn yr ysgol a'r gymuned.	Nac ydy, oherwydd bod angen ymaelodi.	Nac oes, ond mae'n addawol.	45
Lles	Grwpiau Anogaeth	Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar; ysgolion cynradd ac uwchradd.	Datblygu cymdeithasol ac emosiynol.	Yn rhannol; staff wedi'u hyfforddi ond costau parhaus.	Oes.	48
	Gwreiddiau Empathi/ Hadau Empathi	Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar; ysgolion cynradd.	Datblygu cymdeithasol ac emosiynol.	Nac ydy, oherwydd bod angen hyfforddwr allanol.	Oes.	50
	Ymwybyddiaeth Ofalgar mewn Ysgolion .b (gan gynnwys Paws b)	Ysgolion cynradd ac uwchradd.	Lles meddyliol.	Nac ydy, oherwydd bod angen hyfforddwr allanol.	Nac oes, ond mae'n addawol.	51

Dulliau ysgol gyfan

Mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol: yn defnyddio dull strategol, ysgol gyfan i fynd i'r afael ag anfantais – mae ganddynt ddull strwythuredig, cydlynus a ffocysedig o wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais.⁶

Bydd ysgolion sy'n llwyddiannus wrth fynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol yn mabwysiadu dull ysgol gyfan sy'n canolbwyntio ar arwain, dysgu ac addysgu effeithiol a lles y dysgwr. Gwelir y dylanwad mwyaf pan fydd tîm arwain yr ysgol yn gosod disgwyliadau uchel i'w holl ddysgwyr ac yn sicrhau bod ei staff yn arddel ymdeimlad o bwrpas moesol.


Mae dull ysgol gyfan yn cynnwys:

- cynllunio'n strategol ac yn systematig
- gosod targedau penodol a mesuradwy
- defnyddio ystod o strategaethau sy'n addas i wahanol amgylchiadau a chyd-destunau
- defnyddio data i olrhain cynnydd, cynllunio ymyraethau a gwerthuso canlyniadau
- sicrhau bod y staff i gyd yn deall y dylanwad a geir a sut i liniaru effeithiau tlodi ac anfantais
- cyfleu eu gweledigaeth a'u pwrpas.

Dilyn dull ysgol gyfan, strategol er mwyn mynd i'r afael ag anfanteision ac amddifadedd yw un o'r deg strategaeth a restrir gan Estyn yn ei adroddiad *Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion* (2012) (www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/260005.2/Arfer%20effeithiol%20wrth%20fynd%20i'r%20afael%20â%20thlodi%20ac%20anfantais%20mewn%20ysgolion%20-%20Tachwedd%202012/?navmap=30,163).

⁶ *Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion* (Estyn, 2012)

Rhaglen 3A Llwyddiant i Bawb

Thema	Dulliau ysgol gyfan
Gosod targedau	Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, yn ogystal ag unedau cyfeirio disgyblion.
Disgrifiad	Fframwaith gwella ysgol gyfan dwy flynedd yw Rhaglen 3A Llwyddiant i Bawb. Mae'n helpu ysgolion i wella deilliannau i ddysgwyr agored i niwed a di-fraint, gan gynnwys y rheini sy'n dod o deuluoedd isel eu hincwm, y rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) a phlant sy'n derbyn gofal. Darperir y rhaglen ar y cyd rhwng yr ysgol a Hyfforddwr Llwyddiant penodedig. Dadansoddir anghenion i nodi'r prif flaenoriaethau ac i ddatblygu cynllun gweithredol penodol ar gyfer yr ysgol. Rhoddir hwnnw ar waith drwy ymweliadau hyfforddi rheolaidd, hyfforddiant, datblygu proffesiynol, a hynny ar-lein a thrwy gyfrwng cymuned cefnogi ymarfer. Nod y rhaglen yw cryfhau dyheadau, gwella mynediad i ddysgwyr agored i niwed a rhai dan anfantais a'u helpu i gyflawni'n well, cau'r bwch cyflawni, gwella ymddygiad a phresenoldeb, meithrin perthynas adeiladol â rhieni/gofalwyr, datblygu gallu i arwain ac adeiladu ar ddatblygu proffesiynol ymhlith yr uwch dîm arwain, athrawon allweddol, staff cymorth a llywodraethwyr. Mae'r fframwaith wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion pob ysgol unigol yng nghyd-destun Cymru (gan gynnwys polisi sy'n berthnasol i lythrennedd, rhifedd a thlodi) a'r dysgwyr y mae ysgolion yn dymuno'u cefnogi.
Tystiolaeth o'r dylanwad 	Mae gwerthusiad gan PWC, a gomisiynwyd gan Llwyddiant i Bawb, yn dangos bod y rhaglen yn gallu helpu ysgolion i gau'r bwch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion. Mae adroddiadau am ei heffaith yn dangos bod lefel dysgwyr a dargedwyd yn cyflymu ym maes darllen, ysgrifennu a mathemateg; bod lefelau presenoldeb yn well a bod llai o gyfnodau o wahardd am gyfnodau penodedig. www.afa3as.org.uk/our-charity/our-impact
Cynaliadwyedd	Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar feithrin gallu ymhlith arweinwyr a staff addysgu ac yn yr ysgol drwyddi draw. Pan ddaw'r rhaglen i ben, bydd Llwyddiant i Bawb yn cynnig amrywiaeth o opsiynau cymorth parhaus.
Costau bras	£7,500 yr ysgol y flwyddyn yng Nghymru. Mae strwythur prisio ar gael sy'n golygu bod ysgolion yn cael talu £1,000 cyn dechrau ac wedyn y gweddill ar ffurf rhandaliadau o ddiwedd tymor dau ymlaen, ar sail yr hyn a ddarperir a'r canlyniadau.
Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	Mae'n ffordd gymwys o wario'r Grant Amddifadedd Disgyblion mewn unrhyw ysgol sydd â nifer resymol o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim/plant sy'n derbyn gofal. Er mai dull ysgol gyfan yw hwn, bydd grwpiau o ddysgwyr y mae gofyn iddynt gael cymorth ychwanegol yn cael eu ffurfio, er mwyn gallu targedu dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim/plant sy'n derbyn gofal.

Argaeledd yng Nghymru	<p>Ar gael ym mhob rhan o Gymru, gyda deunyddiau dwyieithog. Cynhaliwyd prosiect peilot o fis Ionawr 2014 yng Nghonsortium Canolbarth y De. Roedd wedi'i seilio ar egwyddorion Llwyddiant i Bawb ac fe grëwyd rhaglen newydd a oedd yn benodol ar gyfer cyd-destun Cymru sy'n diwallu anghenion penodol ysgolion Cymru, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r rhaglen wedi bod ar gael i bob ysgol yng Nghymru ers mis Medi 2014. Mae deunyddiau dwyieithog wedi'u datblygu ar gyfer cyd-destun Cymru.</p>
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	<p>enquiries@afa3as.org.uk www.afa3as.org.uk</p>

Ymgysylltu â theuluoedd ac â'r gymuned

Building home-school links through out of hours clubs, parenting classes, extended schools and outreach work is a powerful lever for improving children's achievement.⁷

Mae'r gwaith ymchwil yn dweud wrthym fod gan deuluoedd a chymunedau rôl hollbwysig i'w chwarae'n cefnogi cyrhaeddiad a lles plant yn yr ysgol. Gall ysgolion ddatblygu eu gwaith ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau mewn sawl ffordd, ac mae'r rhain yn cael eu harchwilio mewn pecyn cymorth i ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau. Caiff hwn ei gyhoeddi cyn bo hir ar wefan Dysgu Cymru Llywodraeth Cymru yn www.dysgu.cymru.gov.uk. Er enghraifft, gallai'r dulliau gynnwys:

- datblygu gweledigaeth yr ysgol a'i sgiliau a'i gallu i ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned
- gweithgareddau i ddatblygu sgiliau rhieni/gofalwyr i gefnogi dysgu eu plant
- gweithgareddau dysgu i'r teulu, sy'n gallu bod yn ffordd ardderchog o ddenu rhieni/gofalwyr i ymgysylltu â datblygiad eu plentyn ac mae'n gallu gwella sgiliau a dealltwriaeth y rhiant/gofalwr a'r plentyn hefyd
- prosiectau partneriaeth gymunedol, gan gynnwys darparu gwasanaethau cymunedol ar dir yr ysgol, megis dysgu oedolion yn y gymuned⁸
- gwaith amlasiantaeth, gan gynnwys dull y Tîm o Amgylch y Teulu.

Serch hynny, mae ymgysylltu â'r teulu ac â'r gymuned yn gallu bod yn her i'w wneud yn dda, a bydd llawer o ysgolion yn defnyddio partneriaid yn y trydydd sector a'r sector preifat i'w helpu.

⁷ Statham, J., Harris, A., et al. *Strengthening Family Wellbeing and Community Cohesion through the Role of Schools and Extended Services* (Llundain: Centre for Excellence and Outcomes in Children and Young People's Services, 2010)


⁸ I gael gwybod rhagor am ddysgu oedolion yn y gymuned, gweler www.gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/communitylearning/?lang=cy

Teuluoedd ac Ysgolion Gyda'i Gilydd/Families and Schools Together (FAST): Achub y Plant

Thema	Ymgysylltu â theuluoedd ac â'r gymuned
Gosod targedau	Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd (plant 3–8 oed).
Disgrifiad	<p>Ymyrraeth gyflym wyth wythnos yw FAST i blant tair i wyth oed a'u teuluoedd, gan gynnwys brodyr a chwiorydd. Anelir y rhaglen at deuluoedd isel eu hincwm a'i nod yw meithrin ymddygiad da ac agwedd gadarnhaol at yr ysgol a dysgu gan blant a helpu rhieni/gofalwyr hefyd i ymwneud rhagor ag addysg eu plentyn er mwyn iddynt gefnogi eu dysgu a'u datblygiad gartref. Mae'n annog cysylltiadau cryfach rhwng rhieni/gofalwyr a'r plentyn, ysgol y plentyn, rhieni/gofalwyr eraill a'r gymuned ehangach.</p> <p>Bydd rhieni/gofalwyr a'u plant yn mynychu sesiynau wythnosol dwy awr a hanner o hyd. Bydd y sesiynau'n cynnwys gweithgareddau i wella deilliannau addysgol a lles, gan gynnwys bwyta pryd o fwyd gyda'i gilydd, chwarae i'r teulu, gweithgareddau dysgu a chyfathrebu a chymorth un i un i rhieni/gofalwyr a'r plentyn. Mae cyfle hefyd i rhieni/gofalwyr weithio mewn gweithgareddau adeiladu cymuned a chymryd rhan mewn sesiynau gyda rhieni/gofalwyr eraill. I ddilyn sesiynau'r grwpiau, trefnir cyfarfodydd wythnosol a gaiff eu cynnal gan deuluoedd sydd wedi graddio drwy FAST.</p> <p>Canolbwyntir ar feithrin cyfalaf cymdeithasol, cynhwysiant cymdeithasol a hybu cryfderau'r ysgol, y gymuned leol a'r holl blant a'r teuluoedd sy'n byw ynddi.</p> <p>Canlyniadau y bwriedir eu cyflawni: yn y tymor byr, bydd yr uned deuluol yn dod yn nes at ei gilydd, bydd plant yn gallu rheoli eu hunain yn well a bydd y teulu'n teimlo bod y cysylltiad rhyngddo a'r ysgol yn gryfach; yn y tymor hwy, bydd plant yn llai tebygol o gamddefnyddio sylweddau, ymddwyn yn wrthgymdeithasol a byddant yn fwy tebygol o wneud yn dda yn yr ysgol.</p>
Tystiolaeth o'r dylanwad	<p>Mae ysgolion sy'n dilyn FAST wedi dweud bod cyfraddau triwantaeth o'r ysgol yn is a bod llai o ysgolion yn methu. Mae tystiolaeth bod FAST yn gallu gwella ymddygiad cymdeithasol adeiladol, y berthynas rhwng aelodau'r teulu, a chryfhau ymwneud y rhieni â'r ysgol, gan leihau problemau ymddygiad, symptomau emosiynol a gwrthdaro o fewn y teulu. Dywedodd y rhieni/gofalwyr hefyd eu bod yn teimlo'u bod wedi'u grymuso fel partneriaid yn y broses addysgu a bod ganddynt ymdeimlad cryfach o gysylltiad ag ysgol eu plentyn. Mae tystiolaeth y gwaith ymchwil yn dangos effeithiau'r rhaglen ar allu teuluoedd i ymaddasu a bod rhieni'n llai tebygol o ymddwyn mewn ffordd sy'n allanoli eu hymddygiad ar ôl iddynt ddilyn y rhaglen.</p> <p>http://familiesandschools.org/why-fast-works</p>
Cynaliadwyedd	Mae angen buddsoddi er mwyn parhau i ddarparu'r rhaglen. Mae costau parhaus darparu FAST ar ôl hyfforddi'r staff yn gostau sy'n berthnasol i gostau'r ddarpariaeth uniongyrchol, e.e. bydd cyfanswm cost elfen pryd bwyd i deulu'n dibynnu ar faint o deuluoedd sy'n bresennol.


Costau bras	Mae darparu'r rhaglen yn costio tua £750 y plentyn a dargedir, neu £450 y plentyn a gyrhaeddir, a'r prisiau hyn wedi'i seilio ar gyfraddau presenoldeb cyfartalog.
Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	Mae ymgysylltu â theuluoedd ac â'r gymuned yn cael ei weld yn ffordd gadarnhaol o ddefnyddio arian y Grant Amddifadedd Disgyblion mewn ysgolion, yn enwedig pan welir bod diffyg ymgysylltu gan deulu'n rhwystro dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal rhag dysgu. Bydd angen i ysgolion ystyried sut mae targedu'r ymyrraeth hon at ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal.
Argaeledd yng Nghymru	Mae FAST yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd mewn ysgolion cynradd yng Nghymru mewn ardaloedd di-fraint iawn, lle bydd canran uchel o'r dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn 2015, bydd FAST ar gael i ysgolion cynradd ar sail hunan-ariannu. Nid yw deunyddiau craidd FAST ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd ond mae FAST wedi cael ei chynnal mewn ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	www.familiesandschoolstogether.com walesprogramme@savethechildren.org.uk

Blynyddoedd Rhyfeddol: Canolfan Ymyrraeth Cynnar ar Sail Tystiolaeth (CYCST)

Thema	Ymgysylltu â theuluoedd ac â'r gymuned
Gosod targedau	Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd.
Disgrifiad	Cyfres o raglenni i rieni/gofalwyr, plant ac athrawon a ddatblygwyd yn yr Unol Daleithiau yw'r Blynyddoedd Rhyfeddol. Dangoswyd eu bod yn ymyraethau effeithiol i atal a thrin problemau ymddygiad. Mae'r rhaglenni wedi cael eu haddasu a'u profi ar gyfer cyd-destun Cymru gan y Ganolfan Ymyrraeth Cynnar ar Sail Tystiolaeth (CYCST) ym Mhrifysgol Bangor. Mae'n cynnwys ystod o raglenni rhianta i deuluoedd sydd â phlant rhwng 0 a 12 oed: Babanod a Phlantos Bach, Plant Cyn-ysgol a Phlant Oedran Ysgol. Mae'r rhaglenni i gyd yn cynnwys yr un elfennau darparu craidd sy'n cynnwys trafod, edrych ar glipiau fideo i helpu'r sawl sy'n cymryd rhan i nodi sgiliau allweddol, ymarfer sgiliau drwy chwarae rôl a gweithgareddau gartref neu yn yr ystafell ddosbarth er mwyn i'r rhain ddod yn rhan o'r ymddygiad yn gyffredinol ac er mwyn eu cynnal. Bydd y cyfan yn cael ei ddarparu drwy ddefnyddio arddull gydweithio sy'n cydnabod nodau'r sawl sy'n cymryd rhan ac yn ei rymuso. Bydd y rhaglenni i blant yn defnyddio'r un egwyddorion a'r un elfennau darparu ac yn hybu sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad cadarnhaol yn yr ystafell ddosbarth. Rhaglen rheoli'r ystafell ddosbarth yn y blynyddoedd cynnar yw'r Rhaglen Rheoli'r Ystafell Ddosbarth i Athrawon ac fe'i bwriedir ar gyfer athrawon/ymarferwyr plant rhwng tair ac wyth oed.
Tystiolaeth o'r dylanwad 	Wrth werthuso'r Rhaglen Rianta, gwelwyd bod y rhyngweithio cadarnhaol gan rieni'n gwella, llai o ddisgyblu plant yn llym, llai o broblemau gydag ymddygiad ymosodol a bod plant yn gallu ymwneud yn well yn gymdeithasol. Gwelwyd bod y canlyniadau'n para hyd at dair blynedd. Dangoswyd bod Rhaglen Rheoli'r Ystafell Ddosbarth i Athrawon wedi arwain at lai o broblemau ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth, gwelliannau o ran disgyblaeth gadarnhaol a sgiliau rheoli rhagweithiol, llai o ymddygiad ymosodol yn yr ystafell ddosbarth a phlant yn ymddwyn yn fwy cadarnhaol yn gymdeithasol. Wrth werthuso Rhaglen Ystafell Ddosbarth y Dinosaur i Blant, gwelwyd bod plant yn fwy parod ar gyfer yr ysgol, eu bod yn rheoli eu hemosiynau'n well, bod eu sgiliau cymdeithasol yn well a bod llai o broblemau ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth. Ochr yn ochr â gwerthusiadau gan ddatblygwr y rhaglen a'i hailadrodd yn rhyngwladol, mae'r rhaglenni hyn i gyd wedi cael eu treialu a'u profi'n effeithiol yng Nghymru. http://incredibleyears.com/for-researchers
Cynaliadwyedd	Dylai meithrin gallu staff drwy eu hyfforddi sicrhau bod yr ymyrraeth yn gynaliadwy.
Costau bras	Mae'r rhaglen sylfaenol cyn-ysgol i rieni plant 3 i 6 oed yn costio £450 (heb gynnwys TAW) ac mae'r uned ychwanegol bellach i blant oedran ysgol yn £175 (heb gynnwys TAW). Mae gwybodaeth ar ffioedd y cyrsiau eraill ar gael ar y wefan.


Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	<p>Mae hyfforddi staff yn cael ei ystyried yn ffordd dda o ddefnyddio arian y Grant Amddifadedd Disgyblion lle bydd dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal yn elwa arnynt, oherwydd mae'n debygol o sicrhau'r canlyniadau mwyaf cynaliadwy. A dibynnu ar ba rannau o'r rhaglen sy'n cael eu defnyddio, mae'r Blynnyddoedd Rhyfeddol hefyd yn darparu gwasanaethau ymgysylltu â theuluoedd a gwella sgiliau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr. Mae'r ddau beth hyn yn cael eu nodi'n ffyrdd cadarnhaol o ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion.</p>
Argaeledd yng Nghymru	<p>Mae'r rhaglenni hyn i gyd wedi'u hasesu gan Ganolfan Ymyrraeth Cynnar ar Sail Tystiolaeth Prifysgol Bangor. Darperir y cyrsiau hyfforddi yn y rhaglenni hyn i gyd yng Nghymru ac mae'r cyrsiau gan amlaf ar gael yng Nghaerdydd ac ym Mangor.</p>
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	<p>d.williams@bangor.ac.uk www.centreforearlyinterventionwales.co.uk/programmes</p>

Dull Solihull 'Deall ymddygiad eich plentyn': Gwasanaethau Cymunedol Solihull

Thema	Ymgysylltu â theuluoedd ac â'r gymuned
Gosod targedau	Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar; ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig; yn ogystal ag unedau cyfeirio disgyblion.
Disgrifiad	Gellir defnyddio Dull Solihull i bob plentyn 0 i 18 oed gan gynnwys rhai sydd ag anableddau ac awtistiaeth. Ei nod yw gwella iechyd a lles emosiynol rhieni/gofalwyr, dysgwyr a staff yn ogystal â gwella'r ymgysylltu â rhieni a phresenoldeb yn yr ysgol. Mae wedi'i seilio ar dystiolaeth ac mae ganddo blatfform ymchwil parhaus, o Dîm Dull Solihull ac ymchwilwyr annibynnol. Datblygwyd Dull Solihull yn y GIG, gyda chyfraniad gan lawer o asiantaethau a rhieni/gofalwyr. Fe'i cynlluniwyd felly i fod yn gost-effeithiol iawn a hefyd yn gynaliadwy drwy ddarparu hyfforddiant rhaeadru. Fe'i defnyddir mewn cannoedd o ardaloedd drwy'r Deyrnas Unedig – yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr – yn ogystal ag mewn nifer o brosiectau rhyngwladol. I ysgolion, mae sawl ymyrraeth ar gael. Gellir eu defnyddio ar eu pen eu hunain neu fel rhan o strategaeth: gweithdai wedi'u hanelu at rieni/gofalwyr sydd a phlant oedran ysgol gynradd neu uwchradd; cwrs rhianta 'Deall ymddygiad eich plentyn' sydd wedi cael y Nod Ansawdd CANparent; fersiwn ar-lein o 'Deall ymddygiad eich plentyn' er mwyn i rieni/gofalwyr allu cael gafael arno'n haws sydd hefyd wedi cael y Nod Ansawdd; a hefyd hyfforddiant ysgol gyfan i athrawon a staff cymorth.
Tystiolaeth o'r dylanwad 	Mae'r ymchwil yn dangos y gall y cwrs 'Deall ymddygiad eich plentyn' arwain at lai o bryder gan rieni/gofalwyr am eu plant, a'u gwneud yn fwy galluog i adnabod eu teimladau eu hunain a rhai eu plant ac ymateb iddynt. Mae'r ymchwil yn awgrymu hefyd y gall leihau ymddygiad problematig mewn plant. http://communityservices.heartofengland.nhs.uk/default.asp?page=328
Cynaliadwyedd	Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gyda hyfforddiant rhaeadru mewn golwg, ac felly gall fod yn gynaliadwy, hyd yn oed os bydd nifer fach o staff yn cael eu hyfforddi.
Costau bras	Mae'r gost fesul dysgwr yn dibynnu ar y strategaeth a ddilynir ar gyfer ysgol neu glwstwr o ysgolion penodol. Er enghraifft, petai chwech ysgol gynradd yn cydweithio i hyfforddi dau ym mhob ysgol i ddarparu'r grŵp rhianta a'r gweithdai, byddai hyn yn costio oddeutu £6,000 gan gynnwys pecynnau adnoddau a llawlyfrau. Gallai'r bobl hyn wedyn rhaeadru'r hyfforddiant i ragor o staff heb ragor o gost. Hefyd, gallai ysgolion brynu nifer o wasanaethau mewngofnodi ar-lein neu ddarparu gwybodaeth i rieni/gofalwyr er mwyn iddynt brynu'r gwasanaethau eu hunain. Efallai y byddai ysgolion yn dymuno profi'r hyfforddiant ysgol gyfan, er mwyn i rieni/gofalwyr a staff yr ysgol rannu'r un model.


Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	<p>Mae ymgysylltu â theuluoedd ac â'r gymuned yn cael ei weld yn ffordd gadarnhaol o ddefnyddio arian y Grant Amddifadedd Disgyblion mewn ysgolion, yn enwedig pan welir bod diffyg ymgysylltu gan deulu'n rhwystro dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal rhag dysgu. Bydd angen i ysgolion ystyried sut mae targedu'r ymyrraeth hon at ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal.</p>
Argaeledd yng Nghymru	<p>Mae ar gael i bob ysgol yng Nghymru. Mae Dull Solihull yn tyfu yng Nghymru. Mae hyfforddiant sylfaenol deuddydd wedi'i gynnal yn hanner awdurdodau lleol Cymru. Mae'r grŵp rhianta 'Deall ymddygiad eich plentyn' yn cael ei ddarparu mewn sawl un o raglenni Dechrau'n Deg.</p>
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	<p>enquiry@solihullapproachparenting.com http://communityservices.heartofengland.nhs.uk/solihullapproach www.solihullapproachparenting.com</p>

Cryfhau Teuluoedd, Cryfhau Cymunedau: Sefydliad Cydraddoldeb Hiliol

Thema	Ymgysylltu â theuluoedd ac â'r gymuned
Gosod targedau	Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar; ysgolion cynradd ac uwchradd.
Disgrifiad	<p>Rhaglen rianta yw Cryfhau Teuluoedd, Cryfhau Cymunedau, a'i nod yw hybu'r ffactorau gwarchodol sy'n gysylltiedig â rianta da a gwell deilliannau i blant. Mae'r rhaglen wedi cael ei defnyddio gyda rhieni/gofalwyr o nifer o gefndiroedd, gan gynnwys rhieni/gofalwyr o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, rhieni yn eu harddegau, rhieni/gofalwyr ag anableddau dysgu a rhieni/gofalwyr o gymunedau ar y cyrion, gan gynnwys y rheini sydd â phrofiad o gyffuriau, alcohol neu drais. Mae wedi cael ei addasu o raglen rianta yn yr Unol Daleithiau, 'Strengthening multi-ethnic families: A violence prevention programme'. Mae'r rhaglen Cryfhau Teuluoedd, Cryfhau Cymunedau wedi llwyddo i ddenu rhieni/gofalwyr ledled y Deyrnas Unedig ac ymgysylltu â hwy.</p> <p>Mae'n bosibl hyfforddi staff (staff ymgysylltu â theuluoedd neu staff cymorth o ddewis sefydliad partner os oes modd, yn hytrach nag athrawon dosbarth) i ddarparu'r rhaglen eu hunain. Pum niwrnod yw hyd yr hyfforddiant, ac mae'n bosibl ei drefnu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys mewn sefydliadau addysgu.</p>
Tystiolaeth o'r dylanwad 	<p>Mae'r gwerthusiad yn dangos bod y rhaglen yn gallu arwain at newid cadarnhaol yn hunan-gred rhieni/gofalwyr, hyder yn eu rianta, gwell perthynas rhwng aelodau'r teulu, gwell perthynas â'r plant, gwella hunan-gred y plentyn/plant, a gallu'r plentyn/plant i reoli eu hymddygiad. Mae sefydliadau addysgu sy'n defnyddio'r rhaglen wedi dweud bod ymddygiad plant wedi gwella yn yr ystafell ddosbarth, eu bod yn fwy prydlon a'u presenoldeb yn well, bod rhieni'n ymwneud mwy â'r ysgol a bod rhieni/gofalwyr yn fwy hyderus yn cefnogi dysgu eu plentyn.</p> <p>www.raceequalityfoundation.org.uk/sfsc/evidence-and-evaluation</p>
Cynaliadwyedd	Mae'n bosibl i'r ysgol ddarparu'r rhaglen yn annibynnol ar ôl i'r staff gael eu hyfforddi, felly mae'n gynaliadwy. Byddai hyfforddiant parhaus, sicrwydd ansawdd a chymorth gan y sefydliad (dewisol ond fe'i hargymhellir) yn golygu rhagor o gostau.
Costau bras	Mae'r hyfforddiant yn costio £975 y pen am gwrs hyfforddi pum niwrnod ac mae'n cynnwys cwricwlwm llawn (deunyddiau hwylusydd), disg darparu (gyda ffurflenni gwerthuso, taflenni a sleidiau PowerPoint) a chopi o'r deunyddiau i rieni/gofalwyr. Cynigir gostyngiad ar gyfer hyfforddiant mewnol/trefniant grŵp. Mae'r deunyddiau i rieni/gofalwyr yn costio £12 y pen. Gall fod costau ychwanegol ynghlwm wrth y ddarpariaeth, megis lluniaeth, gofal plant i'r rheini sydd â phlant ifanc neu gymorth dysgu, megis dehonglydd.
Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	Mae ymgysylltu â theuluoedd ac â'r gymuned yn cael ei weld yn ffordd gadarnhaol o ddefnyddio arian y Grant Amddifadedd Disgyblion mewn ysgolion, yn enwedig pan welir bod diffyg ymgysylltu gan deulu'n rhwystro dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal rhag dysgu. Bydd angen i ysgolion ystyried sut mae targedu'r ymyrraeth hon at ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal


Argaeledd yng Nghymru	<p>Mae gan y rhaglen Cryfhau Teuluoedd, Cryfhau Cymunedau gysylltiadau â sawl sefydliad yn y trydydd sector yng Nghymru ac mae'n gobeithio gweithio mewn partneriaeth â'r rhain er mwyn gallu lledaenu'r rhaglen ar raddfa fwy sylweddol drwy Gymru. Mae deunyddiau i rieni/gofalwyr wedi'u cyfieithu i fwy nag 20 o ieithoedd cymunedol ac maent ar gael mewn Braille, print mawr ac ar ffurf fersiynau hwylus gyda geiriau hawdd a lluniau. Mae Cryfhau Teuluoedd, Cryfhau Cymunedau wedi ymrwymo i sicrhau y bydd deunyddiau ar gael yn Gymraeg.</p>
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	<p>leandra@racefound.org.uk www.raceequalityfoundation.org.uk/sfsc</p>

Family Learning Signature: BusinessLab


Thema	Ymgysylltu â theuluoedd ac â'r gymuned
Gosod targedau	Plant ysgolion cynradd a'u teuluoedd.
Disgrifiad	<p>Mae Family Learning Signature yn becyn i ddenu teuluoedd i feddwl am ddysgu ac am sut y maent, fel teulu, yn cefnogi dysgu gartref, ac a allant wella'r gefnogaeth honno. Bydd staff sydd wedi'u hyfforddi a'u hardystio'n arbennig (Asiantau Signature) yn gwahodd teuluoedd, mewn grwpiau mawr neu fach, i Weithdy Signature yn yr ysgol sy'n para 90 munud. Gellir cynnal sesiynau un i un hefyd. Mae'r broses yn ysgogi'r teulu i ymgysylltu â dysgu'r plentyn ac yn cryfhau'r berthynas rhwng y teulu a'r ysgol.</p> <p>Bydd ysgolion yn trosglwyddo data Signature i gronfa ddata ac fe allant ddefnyddio'r wybodaeth i gynllunio gwersi a gwaith cartref i gyfateb â'r dulliau dysgu a'r cymorth sydd ar gael o fewn teuluoedd dysgwyr.</p> <p>Mae Signature wedi esblygu o raglen ymchwil aml-bartner a gydlynwyd gan BusinessLab sydd bellach yn darparu'r drwydded a'r hyfforddiant er mwyn i gleientiaid gynnal eu sesiynau Family Learning Signature eu hunain. Mae'n bosibl i ysgol, awdurdod lleol neu gonsortium rhanbarthol godi trwydded, ac mae'n bosibl eu teilwra i weddu anghenion a chyllidebau.</p>
Tystiolaeth o'r dylanwad 	<p>Er nad yw dylanwad yr ymyrraeth hon wedi'i werthuso'n ffurfiol, wrth ddadansoddi ei ddefnyddio yn Hull, cafwyd awgrym bod y rhaglen yn help i wella presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad, bod llai o blant yn cael eu gwahardd o'r ysgol, ei bod yn help i gyrraedd dangosyddion perfformiad allweddol yr ysgol ac i atal pobl ifanc rhag ymddieithrio oddi wrth fyd addysg. Roedd y dadansoddiad yn awgrymu hefyd y gallai sicrhau arbedion o ran costau i ysgolion ac i awdurdodau lleol drwy ymyrryd yn gynnar mewn ffordd fwy effeithiol a gwella'r ffordd y targedir adnoddau.</p> <p>Cynghorir ysgolion sy'n defnyddio Family Learning Signature i werthuso dylanwad y pecyn yn eu hysgol.</p>
Cynaliadwyedd	Seilir y model costau ar ffi flynyddol fesul Signature, a hyfforddiant.
Costau bras	Mae trwydded nodweddiadol i awdurdod lleol ar gyfer 1,000 Signature y flwyddyn yn costio oddeutu £25,000 y flwyddyn (£25 y Signature). Mae'r prisiau hefyd yn gallu cael eu pennu fesul ysgol neu fesul clwstwr o ysgolion, a dibynnu ar yr anghenion a'r cymhwysiad. Mae cost untro ychwanegol o £5,000 i hyfforddi 12 o 'Asiantau' (athrawon, cynorthwywyr a staff bugeiliol) i gynnal y sesiynau.
Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	Mae ymgysylltu â theuluoedd ac â'r gymuned yn cael ei weld yn ffordd gadarnhaol o ddefnyddio arian y Grant Amddifadedd Disgyblion mewn ysgolion, yn enwedig pan welir bod diffyg ymgysylltu gan deulu'n rhwystro dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal rhag dysgu. Bydd angen i ysgolion ystyried sut mae targedu'r ymyrraeth hon at ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal.

Argaeledd yng Nghymru	Mae'r Signature ar gael i ysgolion yng Nghymru, ac mae'n cael ei ddefnyddio yng Nghaerdydd eisoes (lle mae trwydded ar gael ar gyfer y ddinas i gyd), Sir Gaerfyrddin (trwydded ar gyfer y sir i gyd), Gwynedd (trwyddedau ar gyfer clystyrau o ysgolion a phrosiect GwE) ac Abertawe (clwstwr o ysgolion) – a hynny i gyd yng nghyswllt rhaglenni a chymwysiadau Derbyn, Cyfnodau Pontio Allweddol, Grant Amddifadedd Disgyblion, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf.
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	jrae@businesslab.co.uk neu rsimpson@businesslab.co.uk www.businesslab.co.uk/tools/family-learning-signature

Gwerthoedd Teuluol: NSM Training and Consultancy

Thema	Ymgysylltu â theluoedd ac â'r gymuned
Gosod targedau	Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd ac uwchradd (hyd at Gyfnod Allweddol 3).
Disgrifiad	<p>Mae'r Cynllun Gwerthoedd Teuluol wedi'i seilio ar set o 22 o werthoedd, megis 'parch', 'cydweithrediad', 'cariad' a 'goddefgarwch'. Mae'r 22 o werthoedd yn cael eu cyfuno'n becynnau misol sy'n annog rhieni/gofalwyr neu deuluoedd i gymryd rhan mewn cyfres o dasgau hwyliog a heriau y byddant yn eu cynllunio a'u cyflawni gyda'i gilydd yn eu cartref eu hunain. Gall teuluoedd hefyd gystadlu am ddyfarniad lefel efydd, arian neu aur.</p> <p>Mae'r cynllun yn annog teuluoedd i ganolbwyntio ar werthoedd traddodiadol y teulu yn sylfaen ar gyfer meithrin perthynas gadarnhaol â'i gilydd, â'r ysgol ac â sefydliadau. Mae wedi'i gynllunio i gysylltu'n effeithiol â'r Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (ACEDd). Mae'r gweithgareddau wedi'u hysgrifennu'n ofalus i godi safonau sgiliau darllen ac ysgrifennu sylfaenol ynghyd â strategaethau a gweithgareddau darllen syml y gall unrhyw riant/gofalwr eu defnyddio.</p>
Tystiolaeth o'r dylanwad 	<p>Nid oes gwerthusiad ffurfiol wedi'i gynnal ar ddylanwad y rhaglen hon. Enillodd y cynllun y Wobr Leading Aspect yn 2010 am ymgysylltu rhwng rhieni/gofalwyr ac ysgolion mewn ffordd arloesol ac fe gyrhaeddodd y rownd derfynol hefyd yng Ngwobrau Cenedlaethol i Ysgolion y TES yn 2011.</p> <p>Cynghorir ysgolion sy'n defnyddio'r Cynllun Gwerthoedd Teuluol i werthuso'i ddylanwad yn eu hysgol.</p>
Cynaliadwyedd	Ar ôl prynu'r pecyn, nid oes costau parhaus ynghlwm wrth y rhaglen hon. Gall ysgolion hefyd gael hyfforddiant ar gyfer y Cynllun Gwerthoedd Teuluol.
Costau bras	Bydd cwrs hyfforddi undydd yn costio £180 y pen gyda'r opsiwn o brynu pecyn y Cynllun Gwerthoedd Teuluol am £295. Cynigir hyfforddiant ysgol gyfan hefyd. Fel arall, gall ysgolion hefyd brynu'r pecynnau heb gael yr hyfforddiant.
Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	Mae ymgysylltu â theluoedd ac â'r gymuned yn cael ei weld yn ffordd gadarnhaol o ddefnyddio arian y Grant Amddifadedd Disgyblion mewn ysgolion, yn enwedig pan welir bod diffyg ymgysylltu gan deulu'n rhwystro dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal rhag dysgu. Bydd angen i ysgolion ystyried sut mae targedu'r ymyrraeth hon at ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal.
Argaeledd yng Nghymru	Datblygwyd y rhaglen yn wreiddiol yn Ysgol Gynradd Coed Efa Cwmbrân, ac mae wedi cael ei defnyddio mewn llawer o ysgolion yng Nghymru.
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	nsmc@live.co.uk www.nsmc.co.uk/family-values-scheme.php

Buddsoddwyr mewn Teuluoedd: E-Strategix

Thema	Ymgysylltu â theuluoedd ac â'r gymuned
Gosod targedau	Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig.
Disgrifiad	<p>Nod Ansawdd yw Buddsoddwyr mewn Teuluoedd. Gall ysgolion ei ennill bob tair blynedd drwy gyflwyno portffolio tystiolaeth, cynllun datblygu tair blynedd ac ymweliad gan asesydd sydd wedi'i hyfforddi. Mae'r Dyfarniad Buddsoddwyr mewn Teuluoedd yn helpu ysgolion i archwilio a chryfhau eu hymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned. Ei nod yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhoi gwerth ar y rôl bwysig sydd gan deuluoedd ym mywyd y plentyn a'i chefnogi • hybu cynhwysiant cymdeithasol ac ymdeimlad o les drwy gymryd rhan mewn ffordd gadarnhaol yn addysg y plentyn • annog dull ysgol gyfan o weithio fel hyn • galluogi ysgolion i rwydweithio a rhannu arferion da • darparu strwythur i ysgolion ddangos eu hymrwymiad i'r agenda Hawliau i Weithredu (2004).
Tystiolaeth o'r dylanwad 	<p>Nid yw dylanwadau'r rhaglen wedi cael eu gwerthuso eto. Serch hynny, rhaid i ysgolion werthuso'u gweithgareddau eu hunain er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer y dyfarniad ac mae'r dystiolaeth hanesiol yn awgrymu bod archwilio'r ddarpariaeth, ynghyd â'r cynllun gweithredu tair blynedd, yn golygu bod ysgolion yn dilyn dull mwy strategol wrth gynnal gweithgareddau ymgysylltu â theuluoedd. Mae ennill y dyfarniad wedi ennyn sylwadau cadarnhaol mewn nifer o adroddiadau arolygu a chyflwyniadau gan Estyn.</p>
Cynaliadwyedd	Rhaid adnewyddu'r Nod Ansawdd bob tair blynedd ac mae gofyn cael buddsoddiad parhaus; serch hynny, nid oes yn rhaid i'r datblygiad gan bob ysgol i gyrraedd y meini prawf ddod i ben gyda'r ardystiad.
Costau bras	Cost flynyddol aelodaeth ar hyn o bryd i ysgolion yw £750 i ysgolion uwchradd a £600 i ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig. Mae'r ffi aelodaeth yn caniatáu i ysgolion fynd i gynhadledd flynyddol, cyfres o seminarau arferion da, cymorth ysgol i ysgol a gwefan arbennig i aelodau, sydd wrthi'n cael ei datblygu.
Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	Mae ymgysylltu â theuluoedd ac â'r gymuned yn cael ei weld yn ffordd gadarnhaol o ddefnyddio arian y Grant Amddifadedd Disgyblion mewn ysgolion, yn enwedig pan welir bod diffyg ymgysylltu gan deulu'n rhwystro dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal rhag dysgu. Bydd angen i ysgolion ystyried sut mae targedu'r ymyrraeth hon at ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal.

Argaeledd yng Nghymru	<p>Mae dros 200 o ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg wedi ennill Dyfarniad Buddsoddwyr mewn Teuluoedd. Fel rhan o ehangu'r dyfarniad, mewn cydweithrediad â Chanolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg, mae'r dyfarniad yn awr yn cael ei ennill gan ysgolion yng Nghasnewydd, Abertawe a Sir y Fflint. Mae Buddsoddwyr mewn Teuluoedd wrthi'n ymgynghori hefyd ag ysgolion yn Nhor-faen, Blaenau Gwent a Sir Ddinbych er mwyn ehangu'r dyfarniad eto.</p>
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	<p>ken.dicks@investorsinfamilies.org.uk nia.fussell@wales.ac.uk</p>

Dal i fyny a thiwтора

Gall ymgyrchoedd dal i fyny fod yn effeithiol iawn gan fod dysgwyr sy'n cael help i ddal i fyny yn aros ar y lefel honno fel arfer os ydynt yn cael y cymorth cywir.⁹

Mae ysgolion eisoes yn gallu manteisio ar gynlluniau i hybu llythrennedd a rhifedd – mae Pori Drwy Stori¹⁰ ac Every Child a Member¹¹ yn gweithio i feithrin cariad at ddarllen ymhlith holl blant bach Cymru – ond efallai fod angen ymyraethau mwy dwys ar ddysgwyr sy'n wynebu anfanteision ac sydd o bosibl eisoes yn llusgo ar ei hôl hi, neu wedi methu datblygu sgiliau hollbwysig yn ifanc.

Mae'n bwysig sylweddoli y gall rhai dysgwyr eisoes fod yn cyrraedd safon dda, ond y gallent gael eu hymestyn fwy o lawer. Dylid defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi'r dysgwyr mwy galluog a thalentog hefyd i gyrraedd eu potensial llawn.

⁹ Grant Amddifadedd Disgyblion: Canllaw byr i ymarferwyr (Llywodraeth Cymru, 2013)


www.gov.wales/docs/dcells/publications/131216-pdg-short-guidance-for-practitioners-cy.pdf

¹⁰ <http://poridrwystori.booktrust.org.uk/cy>

¹¹ www.cilip.org.uk/cilip-cymru-wales/news/every-child-member

Rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd a argymhellir gan Lywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn 2012 am y cynlluniau dal i fyny mwyaf effeithiol ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae'r canllawiau ar gael ar wefan Dysgu Cymru yn www.learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/catchupguidance/?lang=cy.

Thema	Dal i fyny a thiwora
Gosod targedau	Ysgolion cynradd ac uwchradd.
Disgrifiad	<p>Rhaglenni dal i fyny ym maes llythrennedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Better Reading Partnership • Llythrennedd Dyfal Donc (Catch Up® Llythrennedd drwy gyfrwng y Gymraeg) • Fischer Family Trust Wave 3 • Reading Recovery • Talking Partners • TextNow® <p>Rhaglenni dal i fyny ym maes rhifedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhifedd Dyfal Donc (Catch Up® Rhifedd ddrwy gyfrwng y Gymraeg) • 1stClass@Number™ • Mathematics Recovery • Numbers Count™
Tystiolaeth o'r dylanwad 	<p>Mae'r rhaglenni sydd wedi'u dethol i gyd wedi'u gwerthuso ac wedi dangos eu bod yn effeithiol o ran cyflymu gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd, ac wedi'i seilio ar dystiolaeth ymchwil ddibynadwy. Dylai ysgolion ystyried rhagoriaethau'r dystiolaeth o blaid pob un cyn penderfynu ar drywydd pa ymyrraeth y dylent fynd.</p>
Cynaliadwyedd	Gweler disgrifiadau o'r rhaglenni unigol – mae llawer ohonynt yn golygu costau parhaus ar gyfer trwydded.
Costau bras	Amrywiol.
Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	Nodwyd bod rhaglenni dal i fyny'n ffordd dda o ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion, lle bydd dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal yn llusgo ar ei hôl hi ym maes llythrennedd neu rhifedd, neu lle bydd angen rhagor o help arnynt i gyrraedd eu potensial yn y meysydd hyn.
Argaeledd yng Nghymru	Mae'r holl raglenni a restrwyd ar gael yng Nghymru.
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	Gweler y disgrifiadau o'r rhaglenni unigol.


Adnoddau Cynradd Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen

Thema	Dal i fyny a thiwтора
Gosod targedau	Ysgolion cynradd.
Disgrifiad	<p>Mae gan Adnoddau Cynradd Rhydychen ystod o adnoddau dal i fyny sy'n targedu llythrennedd a rhifedd.</p> <p>Rhaglen ymyrryd Numicon Dull aml-synnwyr o ddysgu mathemateg yw Numicon. Mae'n defnyddio cyfarpar ffisigol i helpu gyda'r dysgu. Rhaglen ddwys i blant 6 i 11 oed yw hon a gynhelir dros gyfnod o dri mis fel rheol, gan gynnal dwy neu dair sesiwn yr wythnos. Bydd ysgolion yn mynychu hyfforddiant penodol a gynigir gan Wasg Prifysgol Rhydychen neu hyfforddwyr cysylltiedig, a defnyddir yr adnoddau sy'n gefn i'r rhaglen i ddarparu'r sesiynau. https://global.oup.com/education/content/primary/series/numicon/?region=uk</p> <p>Project X CODE Rhaglen ymyraethau darllen yw Project X CODE a'i nod yw cyflymu cynnydd wrth ddarllen. Mae'r rhaglen yn defnyddio cyfres antur gyda chymeriadau i gymell a denu darllenwyr, a dull dau destun i feithrin hyder a datblygu geirfa a dealltwriaeth. Yn gefn iddi, darperir cynlluniau gwersi, asesiadau a dull o olrhain cynnydd, ynghyd â hyfforddiant arbenigol. https://global.oup.com/education/content/primary/series/projectx/project-x-code/?region=uk</p>
Tystiolaeth o'r dylanwad	<p>Dim ond Project X CODE sydd wedi'i werthuso'n annibynnol. Dangoswyd bod y prosiect yn llwyddiannus yn cefnogi dysgwyr a oedd yn cael trafferth yn darllen i wneud cynnydd gwell na'r disgwyl wrth ddarllen brawddegau, ffoneg a deall.</p> <p>https://global.oup.com/education/content/primary/case-studies/pages/projectx-code?region=international</p> <p>Roedd adroddiad effaith ar raddfa fach ar ddull Numicon yn cymharu tri cohort o fabanod mewn ysgol dros gyfnod o bum mlynedd. Gwelwyd y gallai defnyddio Numicon arwain at gynnydd o 47 y cant yn y plant sy'n cyflawni Lefel 3 yn eu mathemateg Cyfnod Allweddol 1 (yn Lloegr) a chynnydd o 72 y cant yn nifer y plant hynny wedyn sy'n cyrraedd Lefel 5 yng Nghyfnod Allweddol 2. http://fdslive.oup.com/www.oup.com/oxed/primary/maths/numicon/Numicon_research_impact_study_2011.pdf</p>
Cynaliadwyedd	Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglenni'n cynnwys llawlyfr a/neu hyfforddiant, a hefyd adnoddau i ddysgwyr. Bydd angen buddsoddiad parhaus i brynu'r rhain ar gyfer pob set o ddysgwyr.
Costau bras	Mae costau'r hyfforddiant cychwynol a'r deunyddiau ar gyfer pob ymyrraeth yn amrywio ac mae gofyn prynu adnoddau i bob dysgwr ar gyfer pob un hefyd.



Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	Mae rhaglenni dal i fyny wedi'u gweld yn ffordd dda o ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion, lle bydd dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal yn llusgo ar ei hôl hi ym maes llythrennedd neu rifedd, neu lle bydd angen rhagor o help arnynt i gyflawni eu potensial yn y meysydd hyn.
Argaeledd yng Nghymru	Mae'r rhaglenni i gyd ar gael i ysgolion yng Nghymru ac eisoes yn cael eu defnyddio'n helaeth. Mae Numicon wedi cynnal gweithdy Cymraeg.
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	www.oxfordprimary.co.uk

Tute

Thema	Dal i fyny a thiwтора
Gosod targedau	Ysgolion cynradd ac uwchradd.
Disgrifiad	<p>Bydd Tute yn darparu gwersi byw, rhyngweithiol ar-lein, i grwpiau o hyd at 12 o ddysgwyr a all fod mewn gwahanol leoliadau. Er mwyn cynnal y gwersi, bydd angen Cyfrifiadur Personol sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngwyd, ynghyd â chlustffonau a meicroffon. Anelir y gwersi at ddysgwyr o Gyfnodau Allweddol 2 i 5, ac fe'u darperir gan arbenigwyr pwnc sydd wedi'u cymhwyso'n llawn. Gellir eu hamserlennu ar gyfer unrhyw bryd rhwng 8am ac 8pm, gan gynnwys yn ystod y gwyliau, ac fe all ysgolion rannu lleoedd mewn gwersi.</p> <p>Mae'r rhaglenni i gyd yn cynnwys rhagasesu ac ôl-asesu o fewn y pris, a bydd pob gwers yn cael ei recordio ac ar gael i'r dysgwyr, neu i'r comisiynydd adolygu safonau a pherfformiad. Mae'r gwersi'n cynnwys 45 munud o addysgu, yn ogystal â gweithgareddau ychwanegol a ddarperir drwy gyfrwng platfform dysgu cymdeithasol.</p>
Tystiolaeth o'r dylanwad 	Nid yw'r rhaglen wedi'i gwerthuso'n ffurfiol, ond mae astudiaethau achos Tute yn awgrymu bod dysgwyr sy'n defnyddio'r rhaglen yn cael gwell canlyniadau na'r rhai nad ydynt yn ei defnyddio ac mae athrawon yn dweud bod dysgwyr yn ymgysylltu'n well â'r dysgu ac yn fwy brwd.
Cynaliadwyedd	Mae gofyn buddsoddi'n barhaus i gynnal sesiynau.
Costau bras	Mae Tute yn addysgu hyd at 12 o ddysgwyr ar y tro ym mhob gwers, ac mae'r gwersi'n costio £75 y pen, felly mae'r costau fesul dysgwr yn isel.
Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	Mae rhaglenni dal i fyny wedi'u nodi'n ffordd dda o ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion, lle bydd dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal yn llusgo ar ei hôl hi ym maes llythrennedd neu rifedd, neu lle bydd angen rhagor o help arnynt i gyrraedd eu potensial yn y meysydd hyn. Gellir hefyd ystyried rhaglenni i ymestyn dysgwyr mwy galluog a thalentog lle nad oes darpariaeth ar gael eisoes yn yr ysgol, yn ffordd gadarnhaol o ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion.
Argaeledd yng Nghymru	<p>Mae Tute ar gael drwy Gymru mewn unrhyw adeilad lle mae cysylltiad safonol â'r rhyngwyd ar gael. Fel arall, gellir darparu gwasanaethau drwy systemau cynadledda fideo os bydd cysylltu â'r we'n broblem.</p> <p>Mae Tute yn addysgu llythrennedd, rhifedd, mathemateg, y dyniaethau a Chymraeg iaith gyntaf drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n bosibl troi'r platfform addysgu o'r Gymraeg i'r Saesneg a'r gwrthwyneb.</p>
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	Sean.gardner@tute.com www.tute.com http://tute.com/how-it-works

Cyfoethogi a dyheadau

Mae dysgwyr dan anfantais yn llai tebygol na'u cyfoedion o elwa ar ystod eang o brofiadau diwylliannol, chwaraeon a phrofiadau dysgu eraill. Anaml y mae'r dysgwyr hyn yn teithio'r tu hwnt i'r ardal lle maent yn byw, ac yn aml, nid ydynt yn archwilio ystod y cyfleoedd ar gyfer dysgu yn eu cymuned leol.¹²

Mae chwarae yn greiddiol i iechyd meddwl ac iechyd emosiynol, lles a hapusrwydd plant.¹³

Mae ysgolion mewn sefyllfa i helpu plant o gefndiroedd di-fraint i fanteisio ar ystod ehangach o gyfleoedd i ddysgu, ac i fanteisio ar fwy o brofiadau newydd ac amrywiol nag y byddent fel arall, a rhai y mae eu cyfoedion mwy cefnog yn fwy tebygol o'u mwynhau yn eu bywyd bob dydd. Maent hefyd mewn sefyllfa dda i ysgogi a chefnogi uchelgais y plant ar gyfer y dyfodol.

Gallai gweithgareddau cyfoethogi gynnwys clybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau allgyrsiol, chwarae, ymweliadau diwylliannol ac addysgol i amgueddfeydd, y theatr, orielau, safleoedd hanesyddol a hyd yn oed teithiau tramor. Nid oes yn rhaid canolbwyntio ar weithgareddau drud; gallai mynd â'r plant i ymweld â'r llyfrgell leol ac ymuno â hi wneud gwahaniaeth mawr¹⁴. Gellid defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion hefyd ar gyfer rhywbeth mor syml â chostau cludiant i ddigwyddiad diwylliannol gerllaw, neu rywbeth mor uchelgeisiol â thaith breswyl dramor, lle bydd cysylltiadau clir â'r cwricwlwm a chanlyniadau addysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhagor o ganllawiau am ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol ac fe drafodir y maes hwn yn ddyfnach yn y rheini. Mae'r canllawiau ar gael ar wefan Dysgu Cymru yn www.learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/pdg-in-support-of-arts/?lang=cy.

¹² *Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion* (Estyn, 2012) www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/260005.2/Arfer%20effeithiol%20wrth%20fynd%20i'r%20afael%20a%20thlodi%20ac%20anfantais%20mewn%20ysgolion%20-%20Tachwedd%202012/?navmap=30

¹³ *Adeiladu Dyfodol mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (Llywodraeth Cymru, 2013) www.gov.wales/docs/dcells/publications/130716-building-brighter-future-cy.pdf


¹⁴ Mae'r cynllun 'Every child a member' yn anelu at gofrestru pob plentyn cynradd yn eu llyfrgell leol, gan ddechrau gyda phlant wyth a naw oed mewn chwech awdurdod lleol.

Codi dyheadau ar gyfer plant a phobl ifanc o gefndiroedd di-fraint yw un o brif themâu rhaglen amddifadedd Llywodraeth Cymru, *Ailysgrifennu'r dyfodol* (www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/raisingstandards/rewriting-the-future-schools/?lang=cy).

Mae ymchwil yn dangos bod cysylltiad cryf rhwng dyheadau plant (a dyheadau eu rhieni/gofalwyr) ag addysg uwch a gwell canlyniadau addysgol – mae pobl ifanc yn fwy tebygol o wneud yn dda yn eu TGAU os bydd eu rhieni/gofalwyr yn meddwl ei bod yn debygol y byddant yn mynd yn eu blaen i addysg uwch, ac os bydd y bobl ifanc eu hunain yn credu mwy yn eu gallu eu hunain yn yr ysgol ac yn gweld yr ysgol yn brofiad gwerthfawr¹⁵.


¹⁵ Goodman, A. a Gregg, P. *Poorer children's educational attainment: how important are attitudes and behaviour?* (Joseph Rowntree Trust, 2010)

Rhaglen y Cyflawnwyr (Achiever Programme): Cynllun Allgymorth Cymdeithas Cadlanciau'r Fyddin

Thema	Cyfoethogi a dyheadau
Gosod targedau	Ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion.
Disgrifiad	<p>Rhaglen ymyrryd yn gynnar er mwyn atal troseddau yw Rhaglen y Cyflawnwyr sy'n addas i bobl ifanc sydd heb fawr o hunan-gred neu heb gyflawni llawer yn bersonol, sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol, neu wedi ymddieithrio'n gymdeithasol neu sy'n triwanta neu'n ymddwyn yn broblemus mewn ffordd arall. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan rhwng 13 ac 15 oed, a sefydliadau partner fydd yn eu cyfeirio, er enghraifft ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu lleol neu grwpiau ieuencid neu gymuned eraill. Mae cymryd rhan yn wirfoddol ac fe gaiff y bobl ifanc roi'r gorau i'r rhaglen unrhyw bryd.</p> <p>Gwahoddir y rhai a allai gymryd rhan i gyfarfod cysylltu er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth iddynt am y rhaglen. Bydd y rhai sy'n bwrw ymlaen i ddilyn y rhaglen bryd hynny'n dod i ddiwrnod blasu, lle y caiff y dysgwr flas ar rai o'r gweithgareddau dan sylw, a lle bydd y sefydliad yn asesu a ydynt yn debygol o gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus. Prif elfen y rhaglen yw cyfnod preswyl pum niwrnod, fel rheol mewn ardal hyfforddi milwrol, y tu allan i'w hamgylchedd arferol. Mae'r cwrs yn gofyn llawer ganddynt yn feddyliol ac yn gorfforol a'r bwriad yw dangos i'r bobl ifanc yr hyn y gallant ei gyflawni pan roddir y cyfle iddynt. Anogir staff o'r ysgol i ddod gyda'r dysgwyr. Cynhelir y cwrs yn ystod amser ysgol, a bydd yn rhan o'r cwricwlwm. Dyma rai o'r gweithgareddau nodweddiadol: dringo, canwio, abseilio, hyfforddiant teithiau antur, cymorth cyntaf, cwrs rhwystrau, llywio yn ystod y nos, coginio yn yr awyr agored a byw mewn llochesi brys. Disgwylir i'r rhai sy'n cymryd rhan ysgwyddo'r cyfrifoldeb drostynt hwy eu hunain ac aelodau eraill eu tîm. Dyma'r tro cyntaf i lawer aros oddi cartref.</p> <p>Bydd cyfle i'r rheini y gwelir eu bod fwyaf tebygol o elwa o gael rhagor o gymorth ar ôl dilyn Rhaglen y Cyflawnwyr i gymryd rhan yn Pathfinder Lefel 2, ac fe all y rheini sy'n addas o bosibl ddychwelyd y flwyddyn ganlynol hefyd fel myfyrwyr mentora.</p>
Tystiolaeth o'r gwasad 	<p>Nid yw'r rhaglen wedi'i gwerthuso'n annibynnol i gymharu'r canlyniadau â grŵp rheoli. Serch hynny, mae sefydliadau partner wedi cynnal gwerthusiadau dilynol ar effaith y rhaglen ar y rhai sydd wedi cymryd rhan, yn syth ar ôl yr ymyrraeth, dri mis a naw mis wedyn, ac ar sail y gwerthusiad hwn, adroddiad ar y tueddiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyflawnwyr isel yn cyflawni'n well • mwy o hunan-gred yn syth ar ôl y rhaglen a'i gynnal am gyfnod wedyn • cyfraddau aildroseddau isel ymhlith y rheini sydd wedi cael rhybudd gan yr heddlu • cyfraddau gwahardd isel ymhlith y rheini a oedd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol o'r blaen • gwell ymddygiad. <p>https://armycadets.com/media-centre/publications/348</p>


Cynaliadwyedd	Codir cost y pen ar gyfer y rhaglen ond rhoddion yw prif ffynhonnell yr ariannu, felly efallai y bydd rhywfaint o'r weithgarwch yn gallu parhau pe na bai arian ar gael drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion.
Costau bras	Rhoddion i Gronfa Apêl Allgymorth i Gymdeithas Cadlanciau'r Fyddin sy'n ariannu'r prosiect ar y cyfan, ond gall ysgolion dalu am leoedd yn uniongyrchol, sy'n costio tua £300–£350 y pen.
Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	Os gwelir bod ymddygiad, triwantiaeth, gwahardd o'r ysgol a diffyg hunan-gred yn broblem i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal, yna efallai y byddai Rhaglen y Cyflannwyr yn cael ei hystyried yn ffordd dda o ddefnyddio arian y Grant Amddifadedd Disgyblion.
Argaeledd yng Nghymru	Mae partneriaeth ar gael gyda sefydliadau Cadlanciau'r Fyddin yng Nghymru ac mae llawer o bobl o Gymru wedi dilyn Rhaglen y Cyflannwyr, rhai drwy gyfrwng eu Timau Troseddau Ieuenctid, er enghraifft yn Rhondda Cynon Taf.
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	staffordtolley@beyondsl.net https://armycadets.com/partnerships/outreach/

Prifysgol y Plant

Thema	Cyfoethogi a dyheadau
Gosod targedau	Ysgolion cynradd ac uwchradd.
Disgrifiad	<p>Mae Prifysgol y Plant yn cynnig profiadau dysgu i blant 7 i 14 oed y tu allan i leoliadau traddodiadol yr ysgol a'r tu allan i oriau ysgol. Mae'r gweithgareddau a gynigir yn dibynnu ar y sefydliadau partner yn yr ardal leol, ond fe allai, er enghraifft, gynnwys gweithgareddau ar fferm, mewn amgueddfa, busnes lleol neu elusen. Y nod yw codi dyheadau, hybu cyflawni a meithrin cariad at ddysgu. Gall y gweithgareddau gynnwys clybiau cyn-ysgol, yn ystod amser cinio, ar ôl ysgol neu yn ystod y penwythnos a'r gwyliau.</p> <p>Er bod y rhaglen ar agor i bawb, nod Prifysgol y Plant yn benodol yw gweithio mewn ardaloedd di-fraint. Mae'r dysgu'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth cyrsiau addysg uwch er mwyn i'r plant weld cysylltiad rhwng y gweithgareddau a dysgu posibl yn y dyfodol. Bydd Prifysgol y Plant yn gwirio ansawdd pob gweithgaredd er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig profiad dysgu o safon. Nod Prifysgol y Plant yn bennaf yw cyrraedd plant a phobl ifanc sy'n wynebu anfanteision cymdeithasol-economaidd.</p> <p>Bydd plant sy'n cymryd rhan ym Mhrifysgol y Plant yn defnyddio 'Pasbortau Dysgu' lle y byddant yn cofnodi nifer yr oriau o weithgareddau dysgu a gwblhawyd. Bydd plant yn cael eu hannog i gamu drwy Gynllun Tystysgrifau Prifysgol y Plant, sydd wedi'i seilio ar nifer yr oriau y byddant yn mynychu gweithgareddau yn ystod eu hymwneud â Phrifysgol y Plant. Fel rheol, cyflwynir tystysgrifau mewn seremoni raddio a drefnir drwy Brifysgol y Plant leol.</p> <p>Mae dros 100 o Brifysgolion y Plant wedi'u datblygu drwy'r Deyrnas Unedig ac mae Prifysgolion y Plant ar gael hefyd yn yr Iseldiroedd, yr Eidal, Portiwgal, Awstralia, Singapôr, Malaysia, Tsieina ac India.</p>
Tystiolaeth o'r dylanwad 	<p>Mae'r gwerthusiadau ansoddol a meintiol parhaus o ddefnyddio'r rhaglen yn awgrymu bod presenoldeb y dysgwyr sy'n cymryd rhan yn well na'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan yn yr un ysgol, bod y rhai sy'n treulio mwy o amser yn cymryd rhan yng ngweithgareddau Prifysgol y Plant yn sicrhau gwell canlyniadau mewn mathemateg a Saesneg, a bod y rhai sy'n cymryd rhan yn dangos newidiadau cadarnhaol yn eu hagwedd at ddysgu, eu parodrwydd i roi cynnig ar bethau newydd, eu hunan-gred a'u dyheadau i fynd i addysg uwch. Serch hynny, ni ddefnyddiwyd trefn reoli i fesur unrhyw wahaniaethau cefndir rhwng y ddau grŵp ac felly dylid trin y gwerthusiad yn ochelgar.</p> <p>www.childrens university.co.uk/media--publications/cu-publications/annual-national-cu-evaluations</p>
Cynaliadwyedd	Mae gofyn bod yn aelod parhaus i gymryd rhan ym Mhrifysgol y Plant, felly bydd gofyn buddsoddi'n barhaus.
Costau bras	Seilir y taliadau ar faint y bartneriaeth, o'r lleiaf yn £1,350 i'r mwyaf yn £5,000 y flwyddyn. Codir tâl unigol hefyd am bob dysgwr sy'n cymryd rhan, sef £5 y pasbort (y disgwylir iddo bara tua 18 mis).

Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	<p>Bydd gweithgareddau allgyrsiol yn cynyddu'r amser dysgu, ac mae tystiolaeth yn dangos bod plant sy'n wynebu anfanteision yn elwa mwy na phlant eraill yn sgil y gweithgareddau hyn. Bydd angen i ysgolion ystyried sut mae targedu'r ymyrraeth hon at ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal.</p>
Argaeledd yng Nghymru	<p>Mae ysgolion yng Nghymru'n gallu gwneud cais am ffurfio Prifysgol y Plant (gan amlaf bydd hyn yn golygu ffurfio partneriaeth ag ysgolion a/neu brifysgolion, colegau addysg bellach eraill, fel sy'n briodol).</p>
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	<p>contactus@childrensuniversity.co.uk www.childrensuniversity.co.uk</p>

Ysgolion Spice

Thema	Cyfoethogi a dyheadau
Gosod targedau	Ysgolion cynradd ac uwchradd.
Disgrifiad	<p>Nod Ysgolion Spice yw gweithio gyda dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn ysgolion De Cymru i godi dyheadau a chyflawniad gan feithrin hyder, datblygu sgiliau a gwella dysgu.</p> <p>Bydd Ysgolion Spice yn defnyddio'r system Credydau Amser fel ffordd o weithio sy'n cael effaith fawr am gost isel gan ymgysylltu â phobl ifanc drwy roi gwerth ar yr amser y byddant nhw, eu teulu ac aelodau eraill o'r gymuned yn ei roi i gefnogi cymuned eu hysgol. Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn gallu ennill credydau drwy, er enghraifft, wirfoddoli i ofalu am dir yr ysgol, helpu gyda chlybiau ar ôl ysgol, neu wirfoddoli ar brosiect amgylcheddol neu gynllun tai lloches. Yn eu tro, gall y rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r credydau hyn wedyn i fanteisio ar ystod o wasanaethau lleol, triapiau a gweithgareddau drwy gyfrwng Partneriaid Gwario Spice. Mae gan Spice dros 350 o Bartneriaid Gwario ar draws ei rwydwaith sy'n amrywio o sefydliadau uchel eu proffil, megis Tŵr Llundain, Canolfan y Mileniwm yng Nghymru a Dinas Caerdydd i ddarparwyr hamdden lleol, canolfannau chwarae meddal a sinemâu.</p>
Tystiolaeth o'r dylanwad 	<p>Yn dilyn prosiect peilot Spice mewn detholiad o ysgolion yn Ne Ddwyrain Cymru yn ystod 2012, roedd gwerthusiad Spice yn dweud bod Ysgolion Amser (sydd wedi'u hailenwi'n Ysgolion Spice bellach) wedi cael dylanwad o fewn ysgolion ac yn gyffredinol eu bod wedi cyflawni neu wedi rhagori ar ei holl amcanion. Roedd adroddiad gwerthuso annibynnol Apteligen ym mis Tachwedd 2014 ar ddylanwad credydau amser (yn gyffredinol, nid Ysgolion Spice yn unig) yn dweud bod 65 y cant o'r bobl yn dweud bod ansawdd eu bywyd wedi gwella, a bod 76 y cant yn teimlo'u bod yn gallu cyfrannu rhagor i'r gymdeithas ar ôl cymryd rhan.</p> <p>www.justaddspice.org/news/103-making-an-impact-spice-launches-evaluation-report.html</p>
Cynaliadwyedd	Mae costau aelodaeth parhaus.
Costau bras	Lle bo modd, bydd Spice yn ceisio gweithio mewn clystyrau o ysgolion. Bydd Spice yn codi £5,000 y clwstwr bob blwyddyn (mae hyn yn cyfateb yn fras i £500 yr ysgol gynradd a £1,500–£2,000 yr ysgol uwchradd). Mae'r gost hon yn cynnwys manteisio ar sesiynau hyfforddi wedi'u teilwra, deunyddiau marchnata Ysgolion Spice, nodiadau credyd amser a gallu manteisio ar rwydwaith o 350 o bartneriaid gwario ledled y Deyrnas Unedig.
Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	Ymyrraeth ysgol gyfan yw Ysgolion Spice ond byddai'n gymwys ar gyfer gwariant o dan y Grant Amddifadedd Disgyblion cyn belled â'ch bod yn gallu nodi'n benodol y gwerth rydych am i ddysgwyr sy'n gymwys i gael pryddau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal ei gael drwy'r rhaglen ac yn sicrhau bod y gweithgareddau a gredydir yn adlewyrchu'r meysydd hyn.

Argaeledd yng Nghymru	<p>Mae Spice yn gweithio gyda 30 o ysgolion ledled De Cymru yng Nghaerdydd, Rhondda Cynon Taf a Sir Gaerfyrddin. Nod y sefydliad yw gweithio mewn ardaloedd lle mae rhwydweithiau gwario ar gael eisoes ac mewn clystyrau o ysgolion. Ar hyn o bryd mae Spice yn cynnig ei wasanaeth i ysgolion yn ardaloedd Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Sir Gaerfyrddin. Mae ei waith ar gael yn ddwyieithog.</p>
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	<p>steve@justaddspice.org www.justaddspice.org/our-work/schools.html</p>

Lles

Mae dysgwyr dan anfantais yn fwy tebygol o deimlo'n bryderus am yr ysgol, [ac mae] angen iddynt deimlo'n ddiogel ac yn hyderus cyn iddynt allu dechrau dysgu.¹⁶

Behavioural, emotional and social difficulties are four times as common in the poorest areas as the richest.¹⁷

Mae tlodi'n cael effaith ddofn ar iechyd corfforol, emosiynol a seicolegol plant. Mae plant o gefndiroedd di-fraint ddwy waith a hanner yn fwy tebygol o ddioddef o salwch cronig ac yn fwy tebygol o ddioddef o salwch aciwt na'u cyfoedion mwy cefnog¹⁸.

Mae plant o gefndiroedd di-fraint hefyd yn fwy tebygol o ddioddef problemau ymddygiadol ac emosiynol ac iechyd meddwl gwaeth drwy gydol eu plentyndod. Mae gwahaniaethau mewn problemau ymddygiad yn codi'n fuan ac maent wedi'u hen sefydlu erbyn i blant gyrraedd eu tair oed, ond mae'r berthynas rhwng tlodi ac iechyd meddwl a lles yn fwy cyffredinol i bob golwg yn magu nerth yng nghanol plentyndod.


Lles cymdeithasol ac emosiynol yw un o gonglfeini datblygiad; heb ddeall sut i ymwneud â'i gilydd ac â'r byd, gall fod yn anodd i blant ddysgu. Gellir defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i fuddsoddi mewn rhaglenni sy'n hybu gwytnwch meddyliol, yn cryfhau dulliau o ymdopi a'r gallu i ddelio â phryder a straen, a lleddfu ymagweddau ymosodol ac ymddygiad sy'n tarfu. Mae'r rhain i gyd yn gallu hybu gwell ymgysylltu addysgol.

¹⁶ *Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion* (Estyn, 2012) www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/260005.2/Arfer%20effeithiol%20wrth%20fynd%20i'r%20afael%20a%20thlodi%20ac%20anfantais%20mewn%20ysgolion%20-%20Tachwedd%202012/?navmap=30,163

¹⁷ Kessler, F. a McNally, S. *Special Educational Needs in England. Final Report for the National Equality Panel* (London: Government Inequalities Office, 2009)


¹⁸ Spencer, N. *Health consequences of poverty for children* (End Child Poverty, 2008)

Grwpiau Anogaeth


Thema	Lles
Gosod targedau	Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd ac uwchradd.
Disgrifiad	Ffurf arbenigol ar ddarpariaeth i ddysgwyr sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yw Grwpiau Anogaeth. Maent yn cynnig pont addysgol i blant ac oedolion ifanc er mwyn iddynt gael eu hailintegreiddio'n barhaol i ystafelloedd dosbarth y brif ffrwd. Fe'u sefydlwyd yn gyntaf yn Awdurdod Addysg Llundain Fewnol yn 1970 gan Marjorie Boxall. Crëwyd y grwpiau hyn i wneud iawn am brofiadau meithrin cynnar 'a gollwyd neu a lurguniwyd' drwy drochi plant mewn amgylchedd croesawgar a chynnes i'w helpu i ddatblygu perthynas gadarnhaol â staff y grŵp meithrin a'u cyfoedion. Bydd y staff addysgu a'r cynorthwyr addysgu'n modelu perthynas gadarnhaol a rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau iaith a chyfathrebu gan ganolbwyntio ar ymddygiad cymdeithasol, emosiynol a heriol. Bydd dysgwyr yn cael eu lleoli mewn grŵp anogaeth am gyfnod byr neu ganolig a hynny am hyd at naw hanner diwrnod yr wythnos, a byddant ar gyfartaledd yn dychwelyd yn llwyr i'w dosbarthiadau yn y brif ffrwd ymhén rhwng dau a phedwar tymor. Bydd y Grwpiau Anogaeth fel rheol yn cynnwys rhwng 6 a 12 o blant a dau aelod o staff, sydd wedi'u hyfforddi yn theori Anogaeth. Fe'u defnyddir mewn ysgolion cynradd gan amlaf ond gellir eu defnyddio'n effeithiol mewn ysgolion uwchradd hefyd.
Tystiolaeth o'r dylanwad 	Hyd yn hyn, mae pump astudiaeth annibynnol (nid astudiaethau ar hap) wedi ymchwilio i effeithiolrwydd darpariaeth y grŵp anogaeth drwy gymharu gwelliannau mewn ymddygiad cymdeithasol ac emosiynol a chynnydd academiaidd dysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol mewn Grwpiau Anogaeth o'u cymharu â dysgwyr tebyg a arhosodd yn ystafell ddosbarth y brif ffrwd. Mae'r astudiaethau, a oedd yn cynnwys 1,239 o ddysgwyr, 89 o ysgolion lle'r oedd darpariaeth grŵp anogaeth a 50 heb ddarpariaeth o'r fath, yn dangos bod dysgwyr ag anawsterau yn fwy tebygol o wella o ran eu hymddygiad cymdeithasol ac emosiynol a'u cyflawni academiaidd drwy fynychu darpariaeth y grŵp am ddau dymor o leiaf yn hytrach nag aros yn ystafell ddosbarth y brif ffrwd. Roedd hyn yn wir am fodlau'r grŵp anogaeth amser llawn a rhan amser. Roedd dwy o'r tair astudiaeth a oedd yn dadansoddi cyflawniad academiaidd grŵp yr achos a'r grŵp rheoli yn dangos mantais ystadegol arwyddocaol o ran cynnydd academiaidd i'r dysgwyr hynny fu'n mynychu'r Grŵp Anogaeth o'u cymharu â'r rhai a arhosodd yn ystafell ddosbarth y brif ffrwd. www.nurturegroups.org/what-we-do/research-evidence
Cynaliadwyedd	Bydd costau staff parhaus i gynnal y rhaglen. Serch hynny mae gwerthusiadau awdurdodau lleol ac ysgolion unigol wedi dangos mai grwpiau anogaeth yw un o'r ymyraethau seicogymdeithasol fwyaf cynaliadwy o safbwynt economaidd i blant ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Costau bras	Costau hyfforddi £550 a TAW y pen. Amcangyfrifir bod darparu grŵp anogaeth yn costio oddeutu £5,500 y flwyddyn y plentyn, a bod y gost hon yn gostwng i £1,883 y plentyn mewn Grŵp Anogaeth clasurol sefydledig sydd wedi integreiddio hyd at 30 o blant yn ôl i'r brif ffrwd dros dri thymor.
Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	Os gwelir bod anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn rhwystro dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal rhag llwyddo, yna byddai buddsoddi gwariant y Grant Amddifadedd Disgyblion mewn Grwpiau Anogaeth yn fuddiol.
Argaeledd yng Nghymru	Mae Grwpiau Anogaeth yn cael eu defnyddio yng Nghymru eisoes, gan gynnwys mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae hyfforddiant ar gael mewn lleoliadau o gwmpas y Deyrnas Unedig, gan gynnwys yng Nghaerdydd.
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	info@nurturegroups.org www.nurturegroups.org www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/nurturegroups/?lang=en

Gwreiddiau Empathi/Hadau Empathi: Gweithredu dros Blant

Thema	Lles
Gosod targedau	Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd.
Disgrifiad	Rhaglen fyd-eang yn yr ystafell ddosbarth yw Gwreiddiau Empathi i wella hyfedredd cymdeithasol ac emosiynol plant bach a'u hempatih. Bydd rhiant/gofalwr o'r gymdogaeth â babi'n ymweld bob mis yn ystod y flwyddyn ysgol â'r ystafell ddosbarth gyda hyfforddwr sydd wedi cael ei hyfforddi. Bydd yr hyfforddwr yn darparu sesiynau ychwanegol ddwywaith y mis i ddilyn trywydd y naw thema a drafodir gyda'r dosbarth, gan gynnwys crïo, gofalu, emosiynau a diogelwch. Bydd yr hyfforddwr yn hyfforddi'r plant i sylwi ar ddatblygiad y babi ac i labelu teimladau'r babi. Bydd hyn yn ei dro'n help i'r plant ddeall eu teimladau hwy eu hunain a theimladau pobl eraill, gan feithrin empatih. Rhaglen debyg yw Hadau Empathi, sy'n cael ei chynnal i blant oed meithrin.
Tystiolaeth o'r dylanwad 	Mae tystiolaeth bod y rhaglen yn gallu helpu i gryfhau hyfedredd cymdeithasol ac emosiynol, empatih ac ymddygiad cymdeithasol gadarnhaol mewn plant, ac y gall hyn gyfrannu at lai o fwlio ac ymddygiad ymosodol gan ddatrys materion sy'n ymwneud â pherthynas plant â'i gilydd. www.rootsofempathy.org/en/research-intro.html
Cynaliadwyedd	Darperir y rhaglen gan bartner allanol felly mae costau'r rhaglen yn barhaus, ond bydd y rhain yn gostwng yn sylweddol pan hyfforddir staff yr ysgol i'w darparu.
Costau bras	O fis Gorffennaf 2015 ymlaen, bydd yn rhaid i ysgolion dalu (roedd ar gael am ddim gynt oherwydd bod y Loteri Fawr yn ei hariannu). Mae'n debygol o gostio oddeutu £5,000 yr ysgol y flwyddyn, gyda'r costau'n gostwng ar ôl y flwyddyn gyntaf. Bydd Gweithredu dros Blant hefyd yn darparu hyfforddiant i staff yr ysgol gynnal sesiynau yn y dyfodol, gan ostwng y costau eto fyth.
Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	Ymyrraeth dosbarth cyfan yw Gwreiddiau Empathi ond byddai'n gymwys ar gyfer gwariant dan y Grant Amddifadedd Disgyblion os oes sawl dysgwr yn y dosbarth sy'n gymwys i gael pryddau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal ac y gwelwyd bod diffyg hyfedredd cymdeithasol ac emosiynol yn rhwystr sylweddol rhag dysgu.
Argaeledd yng Nghymru	Fe'i cynhelir ledled Cymru gan Gweithredu dros Blant.
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	Steph.Jones@actionforchildren.org.uk www.actionforchildren.org.uk/media/5587656/roots_of_empathy_report.pdf

Ymwybyddiaeth Ofalgar mewn Ysgolion .b (gan gynnwys Paws b)

Thema	Lles
Gosod targedau	Ysgolion cynradd ac uwchradd.
Disgrifiad	<p>Cwrs ymwybyddiaeth ofalgar naw wythnos sy'n cael ei ddysgu mewn ystafelloedd dosbarth neu i grwpiau bach o ddysgwyr 11 i 18 oed yw .b ('dot be'). Fersiwn o'r cwrs sydd wedi'i haddasu i ysgolion cynradd ar gyfer plant 7 i 11 oed yw Paws b. Mae rhywun cymwys o'r tu allan i'r ysgol, neu aelod o staff yr ysgol sy'n ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar yn rheolaidd ei hun yn gallu arwain y cyrsiau drwy eu hyfforddi i ddarparu'r sesiynau.</p> <p>Bwriedir i'r cwrs fod yn ddiddorol ac yn ddeniadol i bobl ifanc. Bydd pob sesiwn yn archwilio sgil ymwybyddiaeth ofalgar benodol (megis adnabod pryder neu symud mewn ffordd ofalgar) ac fel rheol bydd yn cynnwys cyflwyniad byr gan yr athro/athrawes gyda help lluniau bywiog, delweddau ffilm a sain deniadol i'r dysgwr, ac wedyn ymarferion ymarferol. Nod y rhaglen yw helpu pobl ifanc i brofi gwell lles (e.e. teimlo'n hapusach, yn fwy tawel, yn fwy bodlon), er mwyn gwella'u canolbwyntio a'u ffocws, ac i gryfhau eu gwytnwch, gan eu helpu i ymdopi â phwysau a straen bywyd ifanc, megis arholiadau, perthynas â phobl eraill, problemau cysgu a phroblemau yn y teulu.</p>
Tystiolaeth o'r dylanwad 	<p>Nid yw'r dylanwad ar ganlyniadau addysgol wedi'i werthuso'n benodol, ond mae gwerthusiadau ar raddfa fach ar ymwybyddiaeth ofalgar yn dweud ei bod yn help i fynd i'r afael â phroblemau'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan ac yn lleddfu eu pryderon, eu poenau, eu trallod, eu hagweddau adweithiol a'u hymddygiad gwael, eu bod yn cysgu'n well a bod ganddynt fwy o hunan-gred a'i bod yn arwain at fwy o lonyddwch, ymlacio a hunanymwybyddiaeth. Gwelwyd bod ymwybyddiaeth ofalgar hefyd yn gallu cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu sgiliau gwybyddol a pherfformio mewn pobl ifanc. Mae'r gwerthuso cyfyngedig ar Raglen .b yn dweud ei bod o bosibl yn dylanwadu er gwell ar iselder, straen a lles.</p> <p>Mae astudiaethau cynnar ar effaith hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar ar les staff yr ysgol hefyd, gan gynnwys lleihau straen a meddyliau negyddol ailadroddus, pendroni, pryder ac anhawster cysgu, a gwell myfyrio, hunanymwybyddiaeth emosiynol a chydymdeimlad.</p> <p>http://mindfulnessinschools.org/research/research-evidence-mindfulness-schools-project/</p>
Cynaliadwyedd	Fel rheol, partner allanol fydd yn darparu'r rhaglen, sy'n golygu bod costau parhaus ynghlwm wrth y rhaglen. Fel arall, gellir hyfforddi aelod o staff yr ysgol i ddarparu'r rhaglen, gan sicrhau bod yr ymyrraeth yn gynaliadwy.
Costau bras	Gall athrawon sy'n ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar yn rheolaidd ddilyn yr hyfforddiant pedwar diwrnod i ddysgu .b am £750. Gallai ysgolion ystyried defnyddio athro/athrawes allanol hefyd, ond fe allai hyn effeithio ar natur gynaliadwy'r ymyrraeth.

Materion i'w hystyried ar gyfer cymhwysedd y Grant Amddifadedd Disgyblion	<p>Gall gwella lles dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal fod yn ffordd dda o wario'r Grant Amddifadedd Disgyblion, yn enwedig lle y gwelwyd bod diffyg lles (iselder, pryder, straen) yn rhwystro'r dysgwyr hynny rhag dysgu.</p>
Argaeledd yng Nghymru	<p>Ar hyn o bryd, mae 37 o athrawon hyfforddedig yng Nghymru. Mae hyfforddiant wedi'i gynnig ym Mangor a bydd cwrs hyfforddi i athrawon yn cael ei gynnig yng Nghaerdydd y flwyddyn nesaf. Mae cyfieithiad i'r Gymraeg wrthi'n cael ei ddatblygu.</p>
Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth	<p>enquiries@mindfulnessinschools.org www.mindfulnessinschools.org</p>